Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Caerdydd a'r Fro
# Heol Dumballs 2
# Bae Caerdydd
# CF10 5FE

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓒ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/07/2015**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Coleg Caerdydd a'r Fro yn Awst 2011 o ganlyniad i uno Coleg y Barri a Choleg Glan Hafren. Mae'r coleg yn y chwarter uchaf o'r colegau mwyaf yng Nghymru ac mae ganddo 10 o leoliadau o Trowbridge yn nwyrain Caerdydd i'r Rhws ym Mro Morgannwg. Bydd campws newydd gwerth £45m yn agor yng nghanol dinas Caerdydd ym Medi 2015. Yn 2012-2013, roedd gan y coleg 15,515 o ddysgwyr ac 19,127 o ymrestriadau. Mae tua 639 o ddysgwyr addysg uwch.

Mae 48% o fyfyrwyr y coleg yn wrywaidd a 52% ohonynt yn fenywaidd. Mae 86% o ddysgwyr yn datgan eu bod yn wyn ac 14% yn datgan eu hunain fel arall. Mae 40% o ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed, ac mae 60% ohonynt yn 19 oed neu'n hŷn.

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn dangos bod canran yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn 36.7% ym Mro Morgannwg a 46.3% yng Nghaerdydd. Canran y 10% mwyaf difreintiedig ym Mro Morgannwg yw 5.1% ac 17.3% yng Nghaerdydd. Yn 2014, rhestrwyd Sblot 6 yng Nghaerdydd yn nawfed yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ar y cyfan. Roedd hwn yn gynnydd sylweddol o safle 36 yn 2011. Dywed adroddiad MALlC 2014 Llywodraeth Cymru a gellid priodoli hyn i'r ffaith bod ei hamddifadedd cymharol wedi cynyddu'n sylweddol ym meysydd Cyflogaeth ac Addysg.

Nifer y dysgwyr 16 i 18 oed a oedd yn cael Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd yn 2011-2012 oedd 8,620 (31%) a 3,850 (36%) yn y Fro. Y ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru yn yr un flwyddyn oedd 34%. Mae gan Gaerdydd y ganran uchaf yng Nghymru o adawyr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sef 4.9% yn 2013. Y gyfran ym Mro Morgannwg yw 3.8%. Y cyfartaledd ar gyfer Cymru yn yr un flwyddyn oedd 3.7%.

Mae ystadegau ar gyfer Cymru yn dangos, yn 2013-2014, bod 17% o breswylwyr Caerdydd a 15% o breswylwyr Bro Morgannwg 16 oed neu'n hŷn yn siarad Cymraeg.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r coleg yn dda oherwydd:

- Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer cyrsiau sylweddol (y rhai sy'n gyfwerth â, neu'n fwy na, 150 o oriau dysgu dan arweiniad) yn dda, gan ei roi yn yr ail chwartel o'r holl golegau yng Nghymru
- Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer cyrsiau sylweddol a phob cwrs yn dangos tuedd ar i fyny dros y tair blynedd diwethaf
- Mae dysgwyr o ardaloedd difreintiedig, cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr ag anabledd datganedig yn llwyddo cystal â'u cyfoedion
- Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau cymorth dysgwyr a Medrau Hanfodol yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda
- Mae dysgwyr o bob cefndir a chrefydd yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac mae ymddygiad o gwmpas safleoedd y coleg yn dda iawn

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn darparu arweiniad strategol effeithiol ac uchelgeisiol
- Mae'r pennaeth a'r uwch dîm wedi rheoli newid yn effeithiol ac wedi creu egni newydd yn y coleg
- Mae gan y cynllun datblygu tair blynedd bwyslais cryf ar wella ansawdd
- Mae hunanasesu yn rhan annatod o gynllunio strategol
- Mae'r cylch ansawdd wedi ei sefydlu'n dda a chaiff data meincnodi ei ddefnyddio'n dda i fesur cynnydd a llwyddiant dysgwyr
- Mae targedau ar lefel gorfforaethol yn glir ac yn heriol

## Argymhellion

A1 Parhau i wella cyfradd y dysgwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau sylweddol yn llwyddiannus

A2 Gwella addysgu i sicrhau bod yr holl addysgu o ansawdd uchel yn gyson

A3 Gwneud yn siŵr fod targedau i ddysgwyr yn benodol, uchelgeisiol a mesuradwy, a'u bod yn cynnwys targedau ar gyfer medrau

A4 Adolygu cyfrifoldebau rheoli er mwyn sicrhau strwythur cadarn a dull cyson

A5 Gwella'r defnydd o dargedau penodol mewn cyrsiau datblygu ar lefel cyrsiau, staff ac adrannol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y coleg yn ymgorffori camau gweithredu yn ei gynllun datblygu ansawdd, sy'n dangos yn glir sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn. Caiff cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn ei fonitro'n gyfnodol gan arolygydd cyswllt Estyn y coleg fel rhan o waith arolygydd cyswllt arferol. Bydd Estyn yn gwahodd y coleg i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, cyfradd llwyddo'r coleg yw 77% ar gyfer cyrsiau sylweddol (y rhai sy'n gyfwerth â, neu'n fwy na, 150 o oriau dysgu dan arweiniad). Mae hyn un pwynt canran yn is na'r cymharydd cenedlaethol, sef 78%, ac yn rhoi'r coleg yn yr ail chwartel o'r holl golegau yng Nghymru.

Mae bron pob un o'r meysydd dysgu sector pwnc sydd â nifer fawr o ymrestriadau yn perfformio o gwmpas y cymharydd cenedlaethol neu'n uwch ar gyfer y cyrsiau sylweddol. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddo mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn isel iawn ac 20 pwynt canran islaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae lletygarwch ac arlwyo, a hamdden, teithio a thwristiaeth yn perfformio'n dda ac ar safle un a dau, yn ôl eu trefn, yn erbyn eu cymaryddion cenedlaethol. Mae mwyafrif o'r holl feysydd sector pwnc yn y ddau chwartel uchaf ar gyfer cyrsiau sylweddol.

Mae'r gyfradd llwyddo ar gyfer cyrsiau sylweddol wedi dangos gwelliant cyson dros y tair blynedd diwethaf, o 74% yn 2010-2011 i 77% yn 2013-2014. Mae data'r coleg heb ei gyhoeddi ar gyfer cyrsiau sylweddol yn 2013-2014 yn gadarn ac yn dangos bod y duedd ar i fyny hon yn parhau, a bod y coleg wedi gwneud gwelliant arall o ddau bwynt canran.

Cyfradd llwyddo'r coleg ar gyfer pob cwrs yn 2012-2013 oedd 86%, ac mae hyn un pwynt canran yn uwch na'r cymharydd cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi'r coleg yn y chwartel uchaf ar gyfer pob coleg yng Nghymru.

Mae tueddiadau ar gyfer data pob cwrs dros y tair blynedd diwethaf yn dangos bod y coleg wedi gwella'r gyfradd y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau ac yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus yn gyson. Mae'r duedd hon o welliant ar draws bron pob un o'r meysydd sector pwnc ac ar draws deilliannau medrau hanfodol.

Mae data pob cwrs y coleg heb ei gyhoeddi ar gyfer 2013-2014 yn dangos bod y gyfradd llwyddo wedi gwella fymryn ers y flwyddyn flaenorol.

Mae data'r coleg ar gyfer 2013-2014 yn dangos bod 75% o ddysgwyr amser llawn wedi cyflawni dilyniant cadarnhaol. Gwnaethant symud ymlaen o'u rhaglenni astudio i lefelau uwch o addysg, cyflogaeth neu ddyrchafiad yn y gweithle. Mae hyn 17 pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn gynt. Mae'r gwelliant mwyaf sylweddol mewn dilyniant cadarnhaol o lefel mynediad a lefel pedwar, lle mae'r gwelliant tuag 20 pwynt canran.

Er bod cyfradd llwyddo cyrsiau sylweddol ar gyfer gwyddoniaeth a mathemateg ymhell islaw'r cymharydd cenedlaethol, mae bron pob un o'r dysgwyr yn cyflawni'n unol â'u deilliannau disgwyliedig. Mae dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd a'r Fro yn llwyddo yn eu dysgu ar yr un gyfradd â'u cyfoedion o ardaloedd llai difreintiedig. Mae dysgwyr ag anabledd datganedig a dysgwyr o

gefndir lleiafrif ethnig yn llwyddo yn eu dysgu ar gyfradd sy'n gymaradwy â chyfradd y coleg cyfan. Mae cyfradd llwyddo dysgwyr benywaidd dau bwynt canran islaw cyfradd llwyddo dysgwyr gwrywaidd. Fodd bynnag, mae'r tueddiadau ar gyfer y ddau ryw wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae llawer o ddysgwyr, yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu, yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn cymhwyso'r medrau y maent wedi eu datblygu yn gymwys i feysydd dysgu newydd a chyd-destunau gwahanol. Yn gyffredinol, mae portffolios gwaith yn dangos bod dysgwyr yn gwneud cynnydd effeithiol tuag at ddeilliannau eu cyrsiau. Mae gwaith cwrs y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gyfredol ac maent ar y trywydd iawn i gyflawni eu cymwysterau. Mewn pynciau galwedigaethol fel adeiladu, a lletygarwch ac arlwyo, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau ymarferol ac yn gwneud cynnydd da. Mae dysgwyr yn y grwpiau hyn yn ymgysylltu'n arbennig o dda â'u dysgu ac yn cydweithio'n effeithiol mewn grwpiau a pharau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda yng nghyd-destun eu dosbarthiadau medrau hanfodol ac mewn cymorth i ddysgwyr. Maent yn defnyddio termau technegol sy'n berthnasol i'w cyrsiau yn rhugl ac yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o gwmpas y coleg ac ar draws pob cwrs yn cyfathrebu'n dda â'u cyfoedion, eu tiwtoriaid ac ymwelwyr â'r coleg. Maent yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio ystod eang o eirfa. Maent yn ategu eu syniadau ac yn cyfiawnhau eu barn yn rhwydd. Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn dangos cymhwysedd cadarn mewn cyfrifiadau rhifiadol ac yn cymhwyso'r rhain yn gywir yng nghyd-destun eu rhaglenni astudio.

Mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru yn dda trwy ddosbarthiadau Bagloriaeth Cymru. Er nad yw defnydd dysgwyr o'r Gymraeg wedi ei ddatblygu digon, mae dysgwyr yn ymateb yn briodol i gyfarchion Cymraeg. Mae dysgwyr mewn lletygarwch ac arlwyo yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol wrth gynllunio bwydlenni a chyfarfod a chyfarch cwsmeriaid.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn y coleg yn teimlo'n ddiogel ac mae ganddynt rywun y gallant siarad ag ef/hi os oes ganddynt unrhyw bryderon. Trwy raglen diwtorial gynhwysfawr y coleg, mae dysgwyr yn ennill dealltwriaeth werthfawr o bwysigrwydd byw'n iach.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella ychydig bach dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac, yn benodol, cyfraddau presenoldeb dysgwyr amser llawn. Ar hyn o bryd, mae presenoldeb eleni o gwmpas 90%.

Mae ymddygiad o gwmpas y coleg yn dda iawn, ac mae awyrgylch cyffredinol dawel a phwrpasol ar draws 10 safle'r coleg. Mae dysgwyr yn parchu eu cyfoedion ac yn meithrin perthynas waith effeithiol â'u tiwtoriaid. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn brydlon, ond mewn ychydig o feysydd dysgu, mae ychydig o ddysgwyr yn cyrraedd gwersi'n hwyr. Yn ystod gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi eu cymell yn dda ac yn dangos lefelau priodol o ymrwymiad.

Mae dysgwyr yn llenwi holiaduron defnyddiol i rannu eu barn ar fywyd y coleg. Mae cynrychiolwyr cyrsiau yn cyfarfod ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn a chânt gyfleoedd defnyddiol i gyfarfod â'r pennaeth a'r uwch aelodau staff. Fodd bynnag, nid yw rôl y 'myfyriwr lywodraethwr' wedi ei datblygu'n llawn.

Mae dysgwyr yn cyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau cyflogadwyedd, cyfoethogi a mentergarwch o ansawdd uchel trwy strategaeth 'B#EPIC' y coleg, sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd a mentergarwch. Mae nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar yr ystod eang o weithgareddau buddiol, atyniadol a diddorol wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Mae enghreifftiau'n cynnwys y ffair wirfoddoli, cystadleuaeth 'Pantrepreneur' a digwyddiadau rhwydweithio ar garlam. Yn ogystal, mae dysgwyr sy'n dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gwirfoddoli mewn ystod o ddigwyddiadau cymunedol gwerth chweil, fel codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol.

Erbyn i'r rhan fwyaf o ddysgwyr adael y coleg, maent wedi caffael ystod gynhwysfawr o fedrau cymdeithasol a medrau bywyd i'w galluogi i symud ymlaen yn effeithiol i gyflogaeth, addysg bellach a hyfforddiant.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r coleg yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn dda i ddatblygu a chyflwyno ystod eang o gyrsiau sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach. Mae mwyafrif y cyrsiau yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr symud ymlaen i'r lefel nesaf o ddysgu.

Mae'r coleg yn cydweithio'n dda â darparwyr addysg eraill i gynnig ystod eang o ddysgu i ddysgwyr, o lefel mynediad i lefel pedwar. Mae gan y coleg ffocws cryf ar gymunedau lleol, sy'n annog dysgwyr i gymryd rhan mewn ystod eang o ddigwyddiadau i godi arian ar gyfer elusennau. Mae'r gwaith hwn yn ymestyn i brosiectau o gwmpas y byd, gan gynnwys prosiect 'Vale for Africa', sy'n codi arian i helpu cymunedau yn Wganda.

Mae tîm ymroddedig yn y coleg yn gweithio'n dda i sicrhau cyfleoedd profiad gwaith i ddysgwyr. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n manteisio ar leoliadau gwaith. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd profiad gwaith mewn peirianneg wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae gan y coleg ganllaw defnyddiol i athrawon ar farcio llythrennedd. Fodd bynnag, ni chaiff y canllaw ei ddefnyddio'n gyson mewn adrannau nac ar draws y coleg. Mae canllaw rhifedd y coleg yn ddatblygiad diweddar ac maent rhy gynnar i weld ei effaith ar ddysgu.

Mae'r coleg yn cynnig ystod briodol o gyfleoedd cyfoethogi i ddysgwyr. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda at ddatblygu medrau entrepreneuraidd, cyflogadwyedd, a medrau bywyd a chymdeithasol dysgwyr. Mae enghreifftiau arbennig o dda yn cynnwys prosiect Ynysoedd Falkland a'r academi rygbi a phêl-droed.

Mae dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru yn integreiddio addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) yn eu sesiynau yn dda. Caiff prosiectau eu llunio'n ystyriol i alluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn cystadlaethau a gweithgareddau menter gymdeithasol.

Mae gan y coleg ffocws addas ar ddatblygu darpariaeth y Gymraeg. Mae wedi sefydlu tîm Cymraeg i gynorthwyo staff a dysgwyr i ddatblygu eu medrau dwyieithog. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Addysgu: Da**

Ar draws y coleg, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol dda. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio eu sesiynau theori ac ymarferol yn dda ac yn gosod disgwyliadau clir i ddysgwyr ar ddechrau'r sesiwn.

Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae rhediad da i sesiynau, ac mae athrawon yn herio dysgwyr yn briodol i ddatblygu gwybodaeth ddamcaniaethol a medrau ymarferol newydd. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau, mae'r rhediad yn rhy araf ac nid yw athrawon yn herio dysgwyr yn ddigonol yn effeithiol i wneud cynnydd sy'n gymharol â'u gallu.

Ar draws y meysydd dysgu, mae athrawon yn cynllunio asesu yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn darparu cyfle i ddysgwyr, a rhieni lle bo hynny'n berthnasol, gael adborth ar eu cynnydd trwy adroddiadau ffurfiol a nosweithiau rhieni.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn rheolaidd ac yn rhoi adborth defnyddiol iddynt ar eu perfformiad. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn rhoi adborth adeiladol i ddysgwyr a fydd yn eu galluogi i wella eu perfformiad yn y dyfodol. Yn y mwyafrif o feysydd dysgu, mae athrawon yn datblygu medrau cyflogadwyedd dysgwyr yn dda. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon yn rhoi sylw penodol i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r gweithle a datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i ddod o hyd i waith a'i gynnal.

At ei gilydd, mae staff cymorth dysgu yn rhoi lefelau gwerthfawr o gymorth i ddysgwyr. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth a gwybodaeth, ac i wneud cynnydd da ar eu cwrs a chyflawni eu cymwysterau.

Mae'r addysgu mewn dosbarthiadau penodol ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW) yn datblygu medrau dysgwyr yn dda ac maent yn gwneud cynnydd da. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cyflawni eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn gosod, monitro nac yn olrhain targedau tymor byr i ddysgwyr i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws pob dosbarth a thrwy raglenni galwedigaethol. Mae hyn yn golygu na all dysgwyr nodi'r medrau y mae angen iddynt eu dysgu na'u hymarfer ar draws ystod o gyd-destunau.

Yn y mwyafrif o sesiynau, mae athrawon yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddiwylliant Cymru yn dda. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn defnyddio tasgau a phrosiectau ymarferol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn dda, ac yn datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol. Mae enghreifftiau'n cynnwys dysgwyr yn

ymgymryd â phrosiect Ynysoedd Falkland, sy'n amlygu ymglymiad milwyr o Gymru yn ystod y frwydr.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meithrin perthynas waith effeithiol â'u dysgwyr ac yn rhoi lefelau da o gymorth iddynt.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y coleg drefniadau cynhwysfawr i gynorthwyo dysgwyr a hybu pob agwedd ar eu hiechyd a lles. Mae arweinwyr yn adolygu ac yn diwygio'r rhaglenni tiwtorial a chyfoethogi yn gyson i ymateb yn briodol i newidiadau a heriau cymuned drefol. Mae gan y coleg ddarpariaeth a phartneriaethau effeithiol i hyrwyddo cydraddoldeb, dathlu amrywiaeth, cynorthwyo dysgwyr â phroblemau iechyd meddwl a brwydro yn erbyn radicaleiddio.

Mae'r coleg yn monitro presenoldeb fel mater o drefn ac mae arweinwyr yn cynhyrchu adroddiadau misol defnyddiol i amlygu a thrafod pryderon â chydweithwyr. Pan fydd cyfraddau presenoldeb yn peri pryder, caiff cynlluniau priodol eu llunio â phwyntiau gweithredu addas a cherrig milltir i fonitro cynnydd.

Mae gan y coleg systemau defnyddio i rannu gwybodaeth â dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio posteri a hysbysfyrddau i gyfeirio gwybodaeth a chyngor, a sesiynau galw heibio i roi arweiniad bob wythnos ar draws tri o safleoedd mwyaf y coleg. Hefyd, mae'r coleg yn defnyddio codau QR (ymateb cyflym) i gyfeirio at wefannau defnyddiol a hyrwyddo gwasanaethau sefydliadau partner.

Mae'r coleg wedi meithrin partneriaethau effeithiol ag ystod o asiantaethau allanol i gynorthwyo ei ddysgwyr sy'n fwyaf agored i niwed. Un enghraifft o hyn yw'r gwaith â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a grwpiau cymorth eraill.

Mae gan y coleg drefniadau cryf ac effeithiol i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig y rhai ag anableddau a dyslecsia. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r coleg wedi defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ffyrdd arloesol i gynorthwyo dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys datblygu 'widget' i ofyn cwestiynau llythrennedd a rhifedd a sefydlu hwb cymorth dysgu ar-lein i gasglu a chadw gwybodaeth bwysig am ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Gall tiwtoriaid fanteisio ar 'ganllawiau' defnyddiol, gan gynnwys strategaethau defnyddiol i gynorthwyo dysgwyr mewn gwersi.

Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y coleg strategaeth gynhwysfawr iawn i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy ethos cryf o gynwysoldeb. Mae'n darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae dysgwyr o bob cefndir a chrefydd yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynorthwyo.

Mae dysgwyr o genedligrwydd gwahanol yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd ar draws pob adran ac ar bob un o safleoedd y coleg.

Mae'r coleg yn gweithio'n weithredol i herio gwahaniaeth ac anghydraddoldeb trwy gynnal ffocws cryf ar weithgareddau cyfoethogi sy'n cwmpasu dinasyddiaeth fyd-eang. Mae nifer o ddigwyddiadau sydd â'r nod o herio dewisiadau cyrsiau ystrydebol, fel y 'rhaglen arweinyddiaeth i fenywod' i hyrwyddo menywod mewn busnes.

Mae gan y coleg bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cadarn sy'n cysylltu'n dda ag ystod eang o bolisïau eraill, gan gynnwys y polisi gwrthfwlio ac aflonyddu, a'r polisïau a gweithdrefnau diogelu.

Mae gan y coleg gynllun datblygu ystadau helaeth ac uchelgeisiol sy'n cynnwys campws newydd yng nghanol dinas Caerdydd a menter newydd i ddarparu addysgu uwchradd ac addysg bellach mewn lleoliad cyfunol.

Mae cyfleusterau ac adeiladau ar draws y coleg yn darparu amgylchedd dysgu ag offer da i ddysgwyr. Mae gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd ymarferol gyflenwad da o offer cyfredol. Lle mae'n berthnasol, mae'r rhain yn darparu amgylchedd gwaith realistig sy'n paratoi dysgwyr yn dda ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Caiff safleoedd y mae angen eu hadnewyddu eu cynnwys yn briodol yn y cynllun ystadau. Fodd bynnag, nid yw'r adeiladau ar gyfer dysgwyr medrau byw'n annibynnol yn bodloni eu hanghenion amrywiol yn llawn bob tro.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Ers ffurfio Coleg Caerdydd a'r Fro, mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu un sefydliad. Maent yn darparu arweinyddiaeth strategol effeithiol ac uchelgeisiol i'r coleg. Caiff cynllun datblygu tair blynedd clir a syml, sydd wedi ei seilio ar weledigaethol y coleg, sef 'Ysbrydoledig, Cynhwysol, Dylanwadol', ei ddeall yn dda a'i gefnogi ar draws y sefydliad cyfan. Mae wedi creu egni newydd oddi mewn i'r coleg. Yn benodol, bu'r pennaeth yn effeithiol iawn o ran hyrwyddo'r brandio allanol corfforaethol ac ail-leoli'r coleg fel chwaraewr allweddol yn yr ardal. Mae'r ddau ddirprwy bennaeth yn chwarae rolau arweiniol gweithredol ac effeithiol mewn gweithredu'r coleg, gan alluogi'r pennaeth i ganolbwyntio ar ymgysylltiad allanol.

Mae'r uwch dîm wedi rheoli sefydlu strwythur newydd y coleg yn ofalus iawn ac, yn gyffredinol, mae rheolwyr wedi ymateb yn dda i'w rolau a'u cyfrifoldebau newydd. Mae'r coleg yn flaengar o ran creu adran fasnachol newydd a rhoi ei swyddogaeth ar waith yn effeithiol. Fodd bynnag, er bod y strwythur rheoli newydd yn gydlynol, mae agweddau ar lwythi gwaith yn y weithrediaeth sy'n anghytbwys.

Mae cyfathrebu gan y weithrediaeth yn gryf, yn enwedig trwy ddefnydd arloesol o e-gyfryngau, sy'n creu ymdeimlad o dryloywder. Caiff llawer o gyfarfodydd rheoli eu cynnal ar draws y coleg ar lefelau gwahanol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi eu

strwythuro'n ddigon da bob tro i alluogi polisïau, gweithdrefnau a systemau newydd i gael eu gweithredu'n gyson ar draws pob maes dysgu. Mae uwch reolwyr yn casglu barn staff yn helaeth ar sail anffurfiol, a bu ymgynghoriad manwl ar faterion penodol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw adolygiad systematig o farnau staff i lywio'r broses hunanasesu.

Mae'r coleg wedi datblygu dangosfyrddau electronig defnyddiol sy'n cael eu defnyddio'n helaeth i fonitro data. Mae rheoli perfformiad yn rhan arferol o'r coleg. Fodd bynnag, nid oes digon o weithredu ar ddangosyddion perfformiad strategol allweddol islaw lefel rheolwyr canol.

Mae gan y corff llywodraethol berchenogaeth lawn dros y cynllun datblygu tair blynedd ac mae'n chwarae rhan ddylanwadol yn ei gynnydd. Mae aelodau'r bwrdd yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac maent wedi darparu her a chymorth cryf i reolwyr yn ystod cyfnod parhaus o newid a datblygu ar gyfer y coleg. Mae'r strategaeth ystadau uchelgeisiol yn agwedd ganolog ar eu hymglymiad, ac maent yn amlwg yn ymwybodol o risg. Caiff y corff llywodraethol ddiweddariadau rheolaidd ar berfformiad dysgwyr, a chaiff tanberfformiad ei herio'n gadarn.

Bu cynrychiolaeth myfyrwyr ar y bwrdd yn drafferthus. Fodd bynnag, mae llywodraethwyr yn ymdrechu i gyfarfod â myfyrwyr trwy strwythur llywodraethwr cyswllt sydd wedi ei gynllunio'n dda. Mae'r corff llywodraethol yn hyrwyddo cynnwys dysgwyr ac ehangu cyfranogiad yn weithredol. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar ddatblygu cwricwlwm dwyieithog yn llai clir.

Mae arweinwyr y coleg yn ymwybodol iawn o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol i wella ansawdd addysg ac yn addasu'r sefydliad yn effeithiol i fodloni'r heriau hynny.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y coleg gylch rheoli ansawdd sydd wedi ei hen sefydlu ac sy'n sicrhau y caiff yr holl dimau cyrsiau a meysydd swyddogaethol eu cynnwys yn y broses hunanasesu flynyddol.

Integreiddiwyd polisïau a gweithdrefnau'r ddau goleg etifeddol yn dda ers yr uno.

Mae hunanasesu yn ffurfio rhan annatod o'r broses cynllunio strategol. Mae cynllun datblygu tair blynedd y coleg yn arbennig o effeithiol o ran sefydlu pwyslais cryf ar wella ansawdd ar draws pob agwedd ar ddarpariaeth.

Caiff set glir o ddangosyddion perfformiad allweddol a thargedau ei diffinio ar lefel gorfforaethol. Mae'r targedau hyn wedi eu hymgorffori'n dda yng nghynllun datblygu tair blynedd y coleg. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r targedau hyn ei adolygu'n effeithiol.

Mae ffocws cyson ar lwyddiant cyffredinol dysgwyr a dilyniant cadarnhaol yn treiddio drwy'r coleg newydd. At ei gilydd, mae perfformiad yn ymwneud â'r dangosyddion hyn wedi gwella'n sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr.

Gwna'r coleg ddefnydd da o ddata meincnodi ac mae'n gosod targedau yn dda ar lefel gorfforaethol. Fodd bynnag, mae gosod targedau penodol ar gyfer deilliannau i ddysgwyr yn llai effeithiol ar lefel adrannau, cyrsiau a dysgwyr unigol. Caiff data gwerth ychwanegol ei ddefnyddio i fonitro perfformiad ar raglenni Uwch Gyfrannol a Safon Uwch. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn wedi ei ymestyn i raglenni galwedigaethol lefel uwch hyd yn hyn.

Gwna rheolwyr ddefnydd effeithiol o system dangosfwrdd gynhwysfawr i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol. Fodd bynnag, nid yw ymarferoldeb cysylltiadau â systemau gwybodaeth eraill i lawr i lefel dysgwyr unigol wedi ei wireddu'n llawn hyd yn hyn.

Caiff dull aeddfed y coleg o wella ansawdd ei nodweddu gan drylwyrder gwell mewn prosesau arsylwi. Mae hyn yn cysylltu'n dda â darparu datblygiad a chymorth i staff. Mae'r rhaglen adolygiadau mewnol, a lansiwyd yn ddiweddar, yn darparu ysgogiad pellach i wella'n barhaus.

Mae'r coleg yn defnyddio ystod o strategaethau i gasglu barn dysgwyr, a chaiff adborth ei ddefnyddio'n dda i nodi meysydd i'w gwella.

Mae'r coleg yn defnyddio rhwydweithio'n dda i rannu arfer orau, gwella ansawdd ac annog arloesedd.

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion perthnasol o adroddiadau arolygu blaenorol Estyn ar y ddau goleg etifeddol.

Mae'r adroddiad hunanasesu yn darparu disgrifiad gonest ac arfarnol o gryfderau allweddol y coleg a'i feysydd i'w gwella. Mae cydweddiad agos iawn rhwng adroddiad hunanasesu cyffredinol y coleg a chanfyddiadau tîm arolygu Estyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth wedi creu ethos newydd o weithio mewn partneriaeth ac mae'r coleg yn aelod allweddol o bartneriaethau strategol yn yr ardal. Mae'r ethos hwn yn treiddio drwy'r coleg. Mae partneriaethau'n cynnwys y sectorau cymunedol, addysgol a busnes. Caiff y coleg ei ystyried yn gyfranogwr rhagweithiol a hael oddi mewn i'r partneriaethau hyn.

Mae'r berthynas â'r ddau awdurdod lleol yn gryf a datblygwyd lefel uchel o ymddiriedaeth. Mae bwrdd datblygu addysg Cyngor Caerdydd yn gwneud newidiadau ôl-16 gweddnewidiol yn rhanbarth dwyrain Caerdydd, sy'n cael eu galluogi'n benodol trwy bartneriaeth â'r coleg.

Trwy'r rhwydwaith 14-19, mae'r coleg yn cynnig darpariaeth alwedigaethol sylweddol i ysgolion lleol. Mae'r ddarpariaeth hon wedi tyfu 22% er 2012-2013. Datblygwyd cylchlythyr yn benodol i gyfathrebu â phartneriaid gan gynnwys athrawon ysgol i roi gwybod iddynt am gyfleoedd i ddysgwyr. Mae nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn yr ardal yn disgyn, ac mae'r coleg wedi chwarae rhan sylweddol trwy addasu cyrsiau a chynyddu nifer y dysgwyr ôl-16 amser llawn sy'n cael eu derbyn.

Mae'r coleg yn darparu cynrychiolaeth gref ar fyrddau menter y rhanbarth. Mae'r berthynas hon yn creu gwir botensial i'r coleg ddod yn sbardun allweddol yn natblygiad economaidd y rhanbarth a chreu datblygiadau medrau galwedigaethol cyffrous i ddysgwyr. Mae'r tîm masnachol newydd yn creu rhwydwaith eang o bartneriaid yn y sector preifat ac yn meithrin cysylltiadau effeithiol â byrddau ymgynghorol cyflogwyr. Mae gwybodaeth o'r rhwydweithio hwn yn cael ei choladu'n effeithiol mewn papurau briffio ar wybodaeth am y farchnad lafur, sy'n llywio'r broses gyffredinol o gynllunio cwricwlwm.

Caiff y ddarpariaeth addysg uwch (AU) ei chyflwyno mewn partneriaeth â sawl sefydliad addysg uwch, a cheir targedau clir ar gyfer tyfu. Mae targedau uchelgeisiol ar gyfer gwaith rhyngwladol yn cael eu datblygu ar y cyd â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, ac agorwyd swyddfa ar y cyd yn Beijing yn ddiweddar. Cytunwyd ar gwrs sylfaen yn y coleg, a fydd yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau penodol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r coleg yn rheoli ei adnoddau'n dda. Mae rheolaeth a chynllunio ariannol yn gryf ac mae gan reolwyr gyllidebau dirprwyedig sy'n cael eu defnyddio'n briodol i gynorthwyo i gyflwyno'r cwricwlwm a gwella gwasanaethau eraill.

Mae dyrannu adnoddau wedi ei gysylltu'n glir â blaenoriaethau strategol a thargedau sydd wedi eu cynnwys yng nghynllun datblygu tair blynedd y coleg. Mae'r coleg yn defnyddio gwybodaeth feincnodi allanol yn dda iawn i adolygu ei berfformiad ariannol a llywio penderfyniadau.

Mae gan y coleg gynlluniau uchelgeisiol ac arloesol ar waith i weddnewid ei ystadau a lleihau ei ddibyniaeth ar gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru. Caiff y gwaith o gyflwyno'r cynlluniau hyn ei danategu gan bartneriaethau cryf, prosiectau cydweithredol a masnacheiddio gwasanaethau'n fwy.

Mae blaenoriaethau ar gyfer datblygu cyfalaf yn symud ymlaen yn dda iawn ac yn alinio'n agos ag anghenion allanol o ganlyniad i bartneriaeth a chydweithio agos â rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol allweddol.

Mae'r coleg yn cyflogi nifer briodol o staff profiadau a chymwysedig. Mae'r coleg yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â materion datblygu rheolwyr a chryfhau gallu ar lefel uwch er mwyn sicrhau y caiff ei gynlluniau eu cyflwyno'n effeithiol.

Caiff dyrannu a defnyddio staff ei reoli'n dda, ac mae hyn yn ffurfio rhan annatod o gynllunio'r cwricwlwm a chynllunio ariannol. Mae'r coleg wedi gwella ei effeithlonrwydd cyffredinol trwy ostyngiadau sylweddol mewn costau staffio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan osgoi'r angen i ddileu swyddi'n orfodol.

Caiff bron pob un o'r staff arfarniad blynyddol fel rhan o brosesau adolygu a gwella perfformiad y coleg. Mae gan y coleg raglen datblygu staff sefydledig, sy'n cynnwys diwrnodau datblygu proffesiynol tymhorol a chynhadledd addysgu a dysgu flynyddol.

Gwna'r coleg ddefnydd helaeth ac effeithiol o raglenni datblygu staff ar-lein i fynd i'r afael â materion allweddol, gan gynnwys diogelu a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r dull hwn yn cyflwyno'r cyfryw hyfforddiant mewn ffordd cost effeithiol, yn ogystal â helpu i leihau teithio rhwng safleoedd.

At ei gilydd, mae deilliannau i ddysgwyr yn dda ac mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae'r coleg yn rheoli ei gyllid a'i adnoddau yn dda ac yn darparu gwerth da am arian er budd ei ddysgwyr.

# Adroddiadau meysydd dysgu

## Llythrennedd

### Cyd-destun y maes dysgu

Caiff llythrennedd yn y coleg ei addysgu trwy gymorth dysgwyr, dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru ac Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO). Ni wnaethom arolygu ASO a TGAU Saesneg fel rhan o'r maes dysgu hwn.

Hefyd, mae gan y coleg ymrwymiad i wella medrau llythrennedd pob dysgwr ar draws pob cwrs a phob safle.

Mae'r coleg yn defnyddio offeryn asesu cychwynnol a diagnostig safonol i nodi anghenion medrau dysgwyr. Mae canlyniadau'r asesiad cychwynnol ar gyfer 2013-2014 yn dangos y canlyniadau llythrennedd canlynol:

- Mae 0.36% o ddysgwyr ar lefel cyn-mynediad
- Mae 1.65% o ddysgwyr ar lefel mynediad 1
- Mae 3.39% o ddysgwyr ar lefel mynediad 2
- Mae 18% o ddysgwyr ar lefel mynediad 3
- Mae 33.7% o ddysgwyr ar lefel 1
- Mae 38.9% o ddysgwyr ar lefel 2
- Mae 0.83% o ddysgwyr ar lefel 3 neu'n uwch

### Argymhellion y maes dysgu

A1 Sicrhau bod gan bob dysgwr dargedau llythrennedd penodol, byr a bod gan bob dysgwr ddealltwriaeth glir o'r medrau penodol y mae angen iddynt eu gwella a'u datblygu

A2 Sicrhau bod yr holl athrawon yn defnyddio canlyniadau asesu yn effeithiol i gynllunio cyfleoedd i ddysgwyr er mwyn datblygu eu medrau llythrennedd yn ystod gwersi

A3 Sefydlu llinellau atebolrwydd clir ar gyfer rheoli a chydlynu datblygu llythrennedd ar draws y coleg

### Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Da

Mae data ar gyfer 2012-2013 yn dangos mai cyfradd cwblhau llwyddiannus y coleg ar gyfer sgiliau hanfodol cyfathrebu ar bob lefel yw 79%. Mae hyn bedwar pwynt canran islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 83%. Mae cyfradd y dysgwyr sy'n cwblhau ac yn cyflawni eu cymhwyster cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru yn llwyddiannus wedi dangos tuedd ar i fyny dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar bron pob lefel. Mae tuedd ar i lawr yn y gyfradd cwblhau llwyddiannus ar gyfer cyfathrebu lefel

mynediad dau o 92% yn 2011-2012 i 53% yn 2012-2013. Fodd bynnag, mae data heb ei gyhoeddi ar gyfer y coleg yn dangos bod tueddiadau ar i fyny yn parhau ar gyfer y rhan fwyaf o lefelau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio eu medrau siarad a gwrando yn dda i gyfathrebu'n effeithiol mewn ystod o leoliadau ac yn defnyddio geirfa dechnegol yn gywir ac yn rhugl. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn peirianneg yn eglur ac yn defnyddio iaith dechnegol peirianneg berthnasol yn hyderus.

Gall llawer o ddysgwyr ddarllen gwybodaeth yn hyderus i gyflawni tasgau a roddir. Yn yr achosion gorau, gall dysgwyr ddefnyddio ystod o strategaethau darllen i gywain gwybodaeth o ddeunyddiau'r cwrs.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn astudio cymwysterau medrau hanfodol ar lefel briodol. Maent yn datblygu eu medrau sillafu, atalnodi a gramadeg yn dda yn y dosbarthiadau hyn, ac yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros brawfddarllen eu gwaith eu hunain. Mae dysgwyr mewn ychydig o feysydd dysgu galwedigaethol, fel Cyflawni Gweithrediadau Peirianneg (PEO) lefel 2 a cache lefel 3, yn datblygu eu medrau sillafu yn dda trwy gadw rhestr o eiriau technegol cyffredin a defnyddio'r adnodd hwn i'w helpu â'u hysgrifennu.

Mewn sesiynau Bagloriaeth Cymru, mae dysgwyr yn defnyddio templedi'n dda i'w cynorthwyo i ysgrifennu, cadw cofnodion a chynllunio camau gweithredu. Fodd bynnag, mewn meysydd cwricwlaidd galwedigaethol, fel arlwyo lefel un, mae dysgwyr yn dangos safon ysgrifennu wael yn eu gwaith cwrs.

Mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n cael cymorth arbenigol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud rhagor o gynnydd. Mae'r dysgwyr hyn yn ymwybodol o'u targedau ac yn defnyddio'r rhain yn dda i ddatblygu eu medrau. Fodd bynnag, lle nad yw'r cymorth arbenigol hwn ar gyfer medrau sylfaenol ar waith, nid yw dysgwyr yn gwybod beth yw eu targedau llythrennedd unigol. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn gallu gwella ac ymarfer eu medrau llythrennedd penodol ym mhob dosbarth a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm cyfan.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

## Barn: Digonol

Mae'r coleg yn cynnal asesiad cychwynnol o bron yr holl ddysgwyr ar ddechrau eu cwrs. Mae staff cymorth dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i adnabod y dysgwyr hynny a fyddai'n elwa ar gymorth medrau sylfaenol arbenigol. Hefyd, mae dysgwyr sy'n astudio cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn cwblhau asesiad diagnostig, ar sail canlyniadau eu hasesiad cychwynnol, er mwyn helpu i nodi eu hanghenion datblygu medrau penodol.

Mae dysgwyr sy'n cael cymorth medrau sylfaenol arbenigol yn elwa ar dargedau llythrennedd unigol ac yn defnyddio eu cynlluniau dysgu yn dda i fonitro ac adolygu eu cynnydd. Mae'r coleg yn cynnig ystod gynhwysfawr o ddewisiadau cymorth i'r dysgwyr hyn, gan gynnwys cymorth yn y dosbarth a gweithdai. Mae'r dysgwyr hyn yn llwyddo yn y rhaglenni yn unol â'u cyfoedion. Fodd bynnag, mae cynllunio ar

gyfer datblygu medrau dysgwyr eraill yn anghyson oddi mewn i feysydd dysgu galwedigaethol a rhyngddynt. Nid yw digon o wersi yn cynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau yn ogystal â'u hymarfer. Nid yw llawer o athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau diagnostig yn ddigon effeithiol i helpu dysgwyr ar bob lefel i wella eu medrau llythrennedd.

Mae'r adran cymorth dysgwyr yn cynnig ystod o ddewisiadau defnyddiol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llythrennedd y tu allan i'w sesiynau cymorth. Mae'r rhain yn cynnwys deunyddiau ar-lein a thanysgrifiadau i gylchgronau ar gyfer meysydd pwnc galwedigaethol. Mae'r ganolfan adnoddau dysgu yn darparu cyflenwad da o ddeunyddiau cymorth llythrennedd i ddysgwyr.

Mewn dosbarthiadau medrau hanfodol, mae athrawon yn cynllunio prosiectau diddorol yng nghyd-destun prif gwrs y dysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cwblhau prosiect ar fynydda a chyfeiriannu. Mewn ychydig o sesiynau medrau hanfodol, mae technegau holi athrawon yn effeithiol o ran cynorthwyo dysgwyr i fyfyrio ar eu medrau siarad a gwrando unigol a'u hunanasesu.

Mae gan y coleg gynllun nod llythrennedd, ond ni chaiff hwn ei ddefnyddio'n gyson ar draws pob maes dysgu. Nid oes digon o athrawon yn cynnig adborth ysgrifenedig adeiladol a defnyddiol ar waith disgyblion i'w galluogi i ddatblygu eu medrau llythrennedd ymhellach.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

### Barn: Da

Mae gan reolwyr mewn gwasanaethau cymorth dysgwyr a chymwysterau medrau hanfodol rolau a chyfrifoldebau clir. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr iawn o anghenion y dysgwyr ac, yn ddiweddar, maent wedi cwblhau adolygiad defnyddiol o gryfderau a meysydd i'w gwella eu hadrannau. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldebau dros wella a datblygu medrau llythrennedd dysgwyr yn gyffredinol ar draws y coleg wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr nad ydynt yn cael cymorth dysgwyr neu nad ydynt yn dilyn cymwysterau medrau hanfodol yn ymwybodol o'r medrau y mae angen iddynt eu datblygu.

Mae rheolwyr cymorth dysgwyr yn cynllunio'r ddarpariaeth cymorth yn effeithiol. Maent yn defnyddio staff cymorth yn effeithlon mewn meysydd ag angen yn y coleg. Mae hyn wedi cyfrannu'n dda at wella deilliannau i ddysgwyr.

Mae'r coleg yn defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithlon i sicrhau bod dysgwyr yn astudio medrau hanfodol ar lefel briodol. Mae'n casglu ac yn coladu gwybodaeth am y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud o ran cyflawni eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae'r monitro hwn wedi cyfrannu at gyfraddau llwyddo gwell dros gyfnod o dair blynedd.

Mae'r coleg wedi datblygu polisi defnyddiol ar fedrau i ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr, ac wedi datblygu cynllun marcio i helpu i fonitro ansawdd a chysondeb wrth

i athrawon farcio gwaith dysgwyr. Fodd bynnag, ni chaiff hwn ei ddefnyddio'n gyson dda ym mhob maes cwricwlwm.

## Rhifedd

### Cyd-destun y maes dysgu

Caiff rhifedd yn y coleg ei addysgu trwy gymorth dysgwyr, dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru ac Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO). Ni wnaethom arolygu ASO a TGAU mathemateg fel rhan o'r maes dysgu hwn.

Hefyd, mae gan y coleg ymrwymiad i wella medrau rhifedd pob dysgwr ar draws pob cwrs a phob safle.

Mae'r coleg yn defnyddio offeryn asesu cychwynnol a diagnostig safonol i nodi anghenion medrau dysgwyr. Mae canlyniadau'r asesiad cychwynnol ar gyfer 2013-2014 yn dangos y canlyniadau rhifedd canlynol:

- Mae 0.11% o ddysgwyr ar lefel cyn-mynediad
- Mae 1.90% o ddysgwyr ar lefel mynediad 1
- Mae 7.40% o ddysgwyr ar lefel mynediad 2
- Mae 28% o ddysgwyr ar lefel mynediad 3
- Mae 31% o ddysgwyr ar lefel 1
- Mae 24% o ddysgwyr ar lefel 2
- Mae 3.4% o ddysgwyr ar lefel 3 neu'n uwch

### Argymhellion y maes dysgu

A1 Sicrhau bod gan bob dysgwr ddealltwriaeth glir o'r medrau rhifedd penodol y mae angen iddynt eu gwella a'u datblygu, a bod ganddynt dargedau penodol, byr i ategu hyn

A2 Sicrhau bod yr holl athrawon yn defnyddio canlyniadau asesu yn effeithiol i gynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau rhifedd yn ystod gwersi

A3 Sefydlu llinellau atebolrwydd clir ar gyfer rheoli a chydlynu datblygu rhifedd ar draws y coleg

### Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Da

Mae'r gyfradd llwyddo ar gyfer cymhwyso rhif cyffredinol Sgiliau Hanfodol Cymru, ar draws y coleg, wedi gwella o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, ar gyfer 2012-2013, cyfradd cwblhau llwyddiannus y coleg yw 77% ar draws pob lefel, sydd bedwar pwynt canran islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 81%. Mae lefel mynediad 2 yn sylweddol is na'r cymharydd cenedlaethol ac yn dangos tuedd ar i lawr er 2011-2012. Fodd bynnag, mae cyfraddau cwblhau llwyddiannus ar lefel 3 wedi dangos gwelliant

sylweddol, gan godi o 50% yn 2011-2012 i 89.2% yn 2012-2013. Mae data'r coleg heb ei gyhoeddi ar gyfer 2013-2014 yn dangos bod y tueddiadau ar i fyny yn parhau ar gyfer y rhan fwyaf o lefelau.

Mewn llawer o feysydd dysgu, mae lleiafrif o ddysgwyr yn defnyddio eu medrau rhifiadol yn dda wrth gyfrifo. Yn benodol, mae dysgwyr sy'n astudio bioleg a ffiseg Safon Uwch yn dangos graddau uchel o ofal a chywirdeb wrth wneud cyfrifiadau. Mae llawer o ddysgwyr mewn peirianneg ac adeiladu yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda pan fydd y rhain yn digwydd yn naturiol yn eu prif raglenni astudio. Maent yn cyflwyno diagramau a data yn daclus ac yn gywir. Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau ymarferol mewn lletygarwch ac arlwyo yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda iawn i gynyddu a lleihau mesuriadau ar gyfer ryseitiau. Fodd bynnag, ym mhob maes dysgu ac ar eu traws, gwna dysgwyr gynnydd anghyson o ran datblygu ac ymarfer eu medrau rhifedd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr sy'n cael cymorth medrau sylfaenol arbenigol yn defnyddio eu canlyniadau rhifedd cychwynnol a diagnostig yn dda. Maent yn gwybod y meysydd rhifedd penodol y mae angen iddynt eu datblygu ac yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu sesiynau cymorth dysgwyr. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddysgwyr nad ydynt yn cael cymorth arbenigol sy'n ymwybodol o'r medrau rhifedd penodol y mae angen iddynt eu datblygu. Nid oes ganddynt unrhyw fodd o fonitro eu cynnydd eu hunain ac ni allant ymarfer ac atgyfnerthu eu medrau ar draws pob un o'u dosbarthiadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o lefel y cymhwyster rhifedd y maent yn ei astudio. Gallant gysylltu'r lefel hon yn dda â'u dysgu a'u cyflawniad blaenorol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o aseiniadau'r cymhwyster a'r gweithgareddau a'r gwaith y mae angen iddynt eu cwblhau. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n manteisio ar yr adnoddau ar-lein sydd ar gael i'w helpu i ddatblygu ac ymarfer medrau penodol mewn rhif; mesur, siâp a gofod; a thrin data.

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

### Barn: Digonol

Caiff bron pob un o'r dysgwyr asesiad cychwynnol i nodi lefel eu medrau rhifedd. Mae athrawon medrau hanfodol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i sicrhau bod dysgwyr yn astudio medrau hanfodol ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu a'u cyflawniad blaenorol. Mae'r holl athrawon medrau hanfodol yn rhoi datblygu medrau rhifedd yng nghyd-destun prif raglenni galwedigaethol dysgwyr yn dda. Mae hyn yn helpu i gynnal cymhelliant a diddordeb dysgwyr.

Mae gan y coleg systemau cadarn ar gyfer adnabod dysgwyr y mae angen cymorth rhifedd arbenigol arnynt. Mae dysgwyr ar raglenni lefel 1 ac is yn cael cymorth targedig gan athrawon cymorth medrau sylfaenol arbenigol. Mae'r athrawon hyn yn gosod targedau rhifedd byrdymor unigol priodol â phob dysgwr ar sail canlyniadau asesiad diagnostig. Caiff y targedau hyn eu cofnodi ar gynlluniau dysgu unigol gwerthfawr ac maent yn ffurfio sail ar gyfer adolygiad rheolaidd o gynnydd. O ganlyniad, mae deilliannau a chyfraddau llwyddo dysgwyr sy'n cael cymorth yn unol â rhai eu cyfoedion, neu'n well.

Fodd bynnag, caiff yr arfer hon ei chymhwyso'n anghyson ar draws meysydd sector pwnc eraill y coleg. Yn y meysydd hyn, nid yw athrawon yn gosod targedau penodol byr i helpu dysgwyr i wella eu medrau rhifedd yn annibynnol fel mater o drefn. Maent yn dibynnu gormod ar ganlyniadau'r asesiad cychwynnol a'r rhestr hir ganlyniadol o dargedau medrau generig. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn gwybod pa dargedau y mae angen iddynt eu blaenoriaethu i'w helpu i ddatblygu eu medrau rhifedd. Ni allant fesur eu cynnydd eu hunain yn hawdd nac ymarfer eu medrau mewn cyd-destunau a dysgu eraill.

Mae athrawon mewn lleiafrif o ddosbarthiadau yn gwneud defnydd priodol o gyfleoedd naturiol i gyflwyno ac ymarfer medrau rhifedd. Er enghraifft, mewn gweithgaredd dosbarth mewn ffiseg A2, gofynnwyd i ddysgwyr wneud cyfrifiadau ar ddeddfau nwy. Mewn adeiladu, anogodd athrawon ddysgwyr i wneud cyfrifiadau ar gyfer maint a nifer mewn gweithgareddau ymarferol. Fodd bynnag, mae'r arfer hon yn anghyson ar draws y meysydd dysgu.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

## Barn: Da

Mae gan arweinwyr a rheolwyr mewn gwasanaethau cymorth dysgwyr a medrau sylfaenol rolau clir. Maent yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac mae llinellau atebolrwydd wedi eu strwythuro'n dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr iawn o anghenion y dysgwyr y maent yn eu cynorthwyo, ac maent yn cynllunio'n effeithiol i gynnig darpariaeth o ansawdd. Yn ddiweddar, maent wedi cwblhau adolygiad defnyddiol o gryfderau a meysydd i'w gwella ar gyfer eu hadrannau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o berfformiad dysgwyr yn eu meysydd ac maent yn mesur deilliannau dysgwyr yn erbyn meincnodau addas. Maent yn monitro ac yn olrhain cynnydd dysgwyr yn dda iawn, ac mae hyn wedi cyfrannu at y duedd ar i fyny mewn deilliannau i ddysgwyr.

Mae rheolwyr yn cynllunio'n dda i gynorthwyo dysgwyr. Maent yn lleoli staff yn effeithlon mewn meysydd ag angen yn y coleg. Gall dysgwyr y mae angen cymorth galw heibio arnynt fanteisio ar weithdai medrau yn rhwydd.

Mae gan y coleg ethos cadarn o wella medrau dysgwyr ac, yn ddiweddar, mae wedi datblygu cynllun marcio ar gyfer rhifedd. Lluniwyd y cynllun hwn trwy waith partneriaeth defnyddiol â cholegau eraill, ac mae wedi ei gynllunio'n dda i helpu i fonitro ansawdd a chysondeb wrth i athrawon farcio gwaith dysgwyr. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu gan staff y mae'r cynllun hwn ac mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar safonau dysgu.

Nid yw arweinyddiaeth ar gyfer rhifedd yn gyffredinol, ar draws pob un o feysydd y coleg ac i'r holl ddysgwyr nad ydynt yn cael cymorth penodol neu ddosbarthiadau medrau hanfodol, wedi ei datblygu'n ddigonol. Nid yw'r llinellau atebolrwydd ar gyfer datblygu rhifedd cyffredinol yn glir. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw ffocws na strategaeth glir ar ddatblygu medrau rhifedd pob un o'r dysgwyr o'u mannau cychwyn unigol. Mae hyn wedi arwain at ddeilliannau gwael o ran llais y dysgwr ar gyfer y cwestiynau medrau. Ni all y mwyafrif o ddysgwyr gydnabod a ydynt yn datblygu eu medrau rhifedd ai peidio.

## Lletygarwch ac Arlwyo

### Cyd-destun y maes dysgu

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn cyflwyno cyrsiau hyfforddiant Lletygarwch ac Arlwyo ar gampysau Heol Colcot a Trowbridge. Mae Lletygarwch ac Arlwyo yn rhan o'r Adran Twristiaeth, Lletygarwch, Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae 78 o ddysgwyr yn hyfforddi yn yr adran. Mae'r coleg yn cynnig nifer o gyrsiau hyfforddiant, gan gynnwys:

- NVQ 1 Lletygarwch
- VRQ 1 Coginio Proffesiynol
- VRQ 2 Lletygarwch
- NVQ 2 Gwasanaethau Lletygarwch
- NVQ 3 Goruchwylio Lletygarwch
- VRQ Cyn-mynediad mewn Lletygarwch
- VRQ 1 Coginio Proffesiynol

### Argymhellion y maes dysgu

A1 Datblygu technegau addysgu a dysgu i annog dysgwyr i ddefnyddio terminoleg alwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg

A2 Gwneud yn siŵr fod systemau sicrhau ansawdd yn gwbl effeithiol o ran sbarduno gwelliant a chodi safonau

### Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn: Da

Mae bron pob un o'r dysgwyr mewn lletygarwch ac arlwyo yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus. O gymharu â cholegau eraill, mae'r maes dysgu yn y chwartel uchaf ar gyfer cyfraddau cwblhau llwyddiannus ar bob cwrs.

Yn gyffredinol, mae cyfraddau llwyddo i ddysgwyr ar gyrsiau sylweddol (y rhai sy'n gyfwerth â, neu'n fwy na, 150 o oriau dysgu dan arweiniad) uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol ar gyfer lefel 1 a lefel 2. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr ar gyrsiau goruchwyliol lefel 3 yn ennill eu cymwysterau nac yn cwblhau eu dysgu'n llwyddiannus cystal â cholegau eraill yng Nghymru. Mae tueddiadau mewn ennill cymwysterau a chwblhau cyrsiau'n llwyddiannus wedi gwella dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae data'r coleg heb ei gyhoeddi ar gyfer 2013-2014 yn dangos mân welliant ar draws pob cymhwyster.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da o gymwysterau lefel 1 a lefel 2. Mae dysgwyr yn cynhyrchu gwaith ymarferol o safon dda ac yn datblygu llawer o fedrau newydd i'w paratoi ar gyfer gwaith neu ddysgu pellach. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n symud ymlaen o gymwysterau lefel 2 i lefel 3. Mae llawer o

ddysgwyr yn gadael y coleg ac yn mynd i weithio yn y diwydiant lletygarwch, neu'n trosglwyddo i gwrs lefel 3 mewn maes dysgu gwahanol, fel twristiaeth.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn rhugl ac mae ganddynt fedrau cyfathrebu da. Mae dysgwyr ar gyrsiau lefel 1 yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda trwy gynllunio bwydlenni, dylunio bwydlenni a pharatoi biliau bwyty i gwsmeriaid. Maent yn cyfrifo meintiau'n gywir trwy addasu ryseitiau i fod yn addas ar gyfer mwy neu lai o ddognau, ac yn amcangyfrif a gwirio gofynion o ran cyllyll a ffyrc wrth osod y bwyty ar gyfer gwasanaeth.

Mae portffolios dysgwyr yn cynnwys ystod eang addas o dystiolaeth ar gyfer tasgau asesedig. Caiff y tasgau hyn eu marcio'n rheolaidd gan diwtoriaid. Fodd bynnag, nid yw ychydig o wallau sillafu yn cael eu cywiro ac nid yw tiwtoriaid bob amser yn dangos i ddysgwyr yn glir sut i wella eu gwaith. Mae dysgwyr yn deall y cynnydd y maent yn ei wneud i gyflawni eu prif gymhwyster. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r dysgwyr yn deall y cynnydd a wnaed ganddynt yn eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.

Mae dysgwyr yn mwynhau bywyd y coleg ac yn cyfranogi'n dda yng ngweithgareddau'r coleg. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod ble i fynd os oes angen iddynt roi gwybod am faterion yn ymwneud â bwlio neu aflonyddu. Mae dysgwyr yn rhoi sylw da i iechyd a diogelwch yn yr amgylcheddau gwaith realistig.

Mae dysgwyr yn hyderus ac mae ganddynt fedrau cymdeithasol da wrth ddelio â'r cyhoedd. Maent yn cyflwyno eu hunain yn dda mewn sesiynau ymarferol ac yn ymfalchïo yn eu hymddangosiad a'u gwaith. Maent yn cyflwyno delwedd broffesiynol i'r cyhoedd wrth wasanaethu yn y bwyty. Maent yn cydweithio â'i gilydd yn broffesiynol mewn timau ac yn mwynhau eu dysgu.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r coleg yn cynnig ystod addas o gyrsiau sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr lletygarwch a'r gymuned yn dda. Mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio'n dda i alluogi dysgwyr i ddilyn cyrsiau sy'n cyfateb i'w hanghenion yn briodol. Mae cyfleoedd da i ddysgwyr symud ymlaen neu drosglwyddo i gyrsiau gwahanol yn y sector, fel twristiaeth a chwaraeon.

Mae athrawon yn defnyddio'r gegin weithiol realistig a'r bwyty hyfforddi yn effeithlon i ddarparu profiad gwaith gwerthfawr i ddysgwyr. Mae staff yn hyrwyddo addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) yn dda. Maent yn defnyddio nifer o weithgareddau dysgu defnyddiol i roi gwybod i ddysgwyr am faterion fel nifer y milltiroedd awyr y mae'n eu cymryd i fewnforio ffa coffi a sut y caiff ffermwyr yn y gwledydd hynny eu cynorthwyo'n ariannol. Mae gan bron pob un o'r dysgwyr ddealltwriaeth gadarn o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae staff yn trefnu nifer o brofiadau bwyta â thema ar gyfer cinio a swper yn y bwyty hyfforddi. Maent yn defnyddio'r rhain yn dda i hyrwyddo digwyddiadau arbennig, fel Dydd Gŵyl Dewi, ac i ddefnyddio cynnyrch Cymreig lleol.

Mae athrawon yn herio dysgwyr ac yn symbylu dysgu yn dda ym mron pob un o'r sesiynau hyfforddi ymarferol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn dangos diddordeb a chymhelliant mewn sesiynau wedi eu haddysgu. Mae athrawon yn cynllunio gwaith dysgwyr yn dda i sicrhau eu bod yn gweithio ar gyflymder addas sy'n cyfateb i'w hanghenion eu hunain ac anghenion gwasanaeth y bwyty hyfforddi. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o bob dysgwr.

Mae gan athrawon wybodaeth gyfredol am eu maes dysgu a phynciau arbenigol. Maent yn cynllunio eu gwersi'n effeithiol. Mae cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi yn gynhwysfawr ac mae iddynt amcanion clir. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu i gysylltu sesiynau theori ac ymarferol yn dda. Mae athrawon a chynorthwywyr dosbarth yn rhoi lefelau da o gymorth i ddysgwyr yn y dosbarth.

Yn y gegin a'r bwyty hyfforddi, mae athrawon yn defnyddio ystod dda o fedrau ymarferol. Mae asesu tasgau ymarferol yn bodloni safonau'r corff dyfarnu. Mae athrawon yn rhoi adborth cynhwysfawr i ddysgwyr ar ddiwedd pob tasg. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn gwybod pa gynnydd y maent wedi ei wneud, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i ennill y cymhwyster y maent yn anelu amdano.

Mae athrawon yn hyrwyddo lles yn effeithiol ac yn rhoi sylw priodol i iechyd a diogelwch dysgwyr. Mae'r coleg yn darparu cyngor gwerthfawr i ddysgwyr pan fyddant yn gwneud cais i astudio. Mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr y cânt eu rhoi ar y cwrs cywir.

Mae'r ystafelloedd yn briodol, yn groesawgar, ac yn cynnwys offer da.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Da**

Mae gan reolwyr adrannau rolau a chyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio'n glir. Mae'r ddau ohonynt yn newydd i'w rolau ac yn awyddus i sbarduno gwelliannau ar draws yr adran. Mae'r staff, y bu llawer ohonynt yn eu swyddi am flynyddoedd lawer, yn deall eu rolau yn dda hefyd.

Caiff cyfarfodydd y coleg a'r gyfadran eu trefnu'n briodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Fodd bynnag, nid oes unrhyw amserlen ar gyfer cyfarfodydd tîm adrannol, ac ni chaiff y rhain eu cynllunio'n ffurfiol bob tro.

Mae rheolwyr yn monitro dangosyddion perfformiad allweddol priodol yn wythnosol. Cânt y wybodaeth hon yn hawdd trwy offeryn (dangosfwrdd) rheoli ansawdd electronig y coleg. Caiff meysydd o danberfformiad eu nodi'n effeithlon a chaiff camau gweithredu adferol eu trafod. Ar hyn o bryd, mae'r coleg yn datblygu proses ffurfiol i fynd i'r afael â diffygion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y fenter hon.

Mae systemau i fonitro cynnydd dysgwyr yn eu pynciau galwedigaethol yn glir a chânt eu deall yn dda, yn gyffredinol. Mae athrawon a rheolwyr yn gwybod beth a ddisgwylir ohonynt o ran cynorthwyo dysgwyr i gyflawni'r deilliannau gorau posibl.

Caiff arfarniadau ac arsylwadau addysgu graddedig eu trefnu'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau rhwng deilliannau arfarnu a gwelliannau mewn addysgu a dysgu wedi eu diffinio'n glir. Nid yw rheoli perfformiad yn cynnwys monitro targedau perfformiad staff unigol yn gadarn.

Mae rheolwyr yn rheoli eu cyllidebau'n dda i sicrhau bod gan y ddau safle adnoddau addas.

Mae adroddiad hunanasesu'r adran yn gryno, yn ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon arfarnol. Nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar sut mae data wedi llywio barnau ac nid yw'n cynnwys dadansoddiad beirniadol.

Nid yw targedau yn y cynllun datblygu ansawdd (CDA) yn ddigon strategol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol (SMART) i ddylanwadu'n effeithiol ar gynlluniau gwella. Nid yw rheolwyr yn defnyddio cymaryddion cenedlaethol yn gyson i osod targedau ac ni chaiff y cynllun ei adolygu'n ddigon aml i fonitro ac olrhain cynnydd.

Mae'r coleg wedi dechrau cyflwyno teithiau dysgu a rhannu arfer dda, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu ac asesu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y mentrau hyn o ran arwain at welliannau.

Mae rheolwyr yn defnyddio ymatebion llais y dysgwr yn dda i wella profiadau dysgwyr. Mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed ac y caiff camau eu cymryd pan fyddant yn mynegi pryderon.

Mae'r adran yn cydweithio'n agos ag ystod eang o gyflogwyr proffil uchel. Mae ychydig o ddysgwyr yn elwa ar y berthynas hon ac yn achub ar gyfleoedd i gael profiad gwaith, cyflogaeth a dosbarthiadau meistr.

Mae'r adran yn cydweithio'n dda â'r Cyngor Sgiliau Sector, Grŵp Lletygarwch Cymru Gyfan a Colegau Cymru, ac mae'n dechrau defnyddio'r perthnasoedd hyn i lywio datblygu'r cwricwlwm a rhannu arfer dda.

Mae'r adran yn defnyddio systemau canolog yn dda i fonitro'r modd y caiff staff eu defnyddio a manteisio i'r eithaf ar eu hamser a'u profiad. At ei gilydd, mae gan ystafelloedd dosbarth ymarferol a theori adnoddau ac offer sy'n addas i'r diben.

## Medrau Byw'n Annibynnol

### Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r adran medrau byw'n annibynnol yn darparu addysg i ddysgwyr ag ystod eang o anghenion dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys dysgwyr ag awtistiaeth, anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith, a dysgwyr sy'n cael trafferth rheoli eu hymddygiad.

Caiff dysgwyr eu hasesu wrth iddynt ymuno â'r coleg ac maent yn astudio mewn un o bedwar prif faes dysgu. Y rhain yw: Horizons, Gweithdy Menter, BTEC a mynediad galwedigaethol. Caiff dysgwyr eu rhoi ar gwrs sy'n cael ei bennu'n gyffredinol gan eu

cymhwysedd ymddygiadol a chymdeithasol. Mae bron pob un ohonynt yn gweithio tuag at gymwysterau lefel mynediad.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Sicrhau y caiff cynnydd dysgwyr ei fesur yn erbyn gwaelodlin gynhwysfawr a data asesu parhaus

A2 Lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

A3 Gwella ystod y profiadau dysgu galwedigaethol i bob dysgwr

A4 Sicrhau bod targedau cynlluniau dysgu unigol a) wedi eu seilio ar yr ystod lawn o anghenion dysgwyr; b) yn benodol ac yn fesuradwy; ac c) wedi eu cysylltu'n glir â chyrchfannau dysgwyr

A5 Sicrhau bod yr holl athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n herio dysgwyr

A6 Sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn briodol i bob dysgwr

A7 Parhau i ddatblygu trefniadau hunanarfarnu

A8 Datblygu dull strategol o weithio ag ystod eang o bartneriaid er mwyn nodi anghenion dysgu ac anghenion eraill dysgwyr a mynd i'r afael â nhw'n llawn

A9 Sicrhau bod hyfforddiant staff yn briodol

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Digonol**

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r cyfraddau llwyddo cyffredinol ar gyfer dysgwyr wedi gwella. Yn 2014, enillodd bron pob un o'r dysgwyr eu prif gymhwyster.

Enillodd bron pob un o'r dysgwyr a oedd yn dilyn y cwrs mynediad galwedigaethol dystysgrifau lefel mynediad mewn cyflogadwyedd a datblygiad personol. Enillodd llawer o'r dysgwyr a oedd yn dilyn y cwrs gweithdy menter dystysgrifau ar lefel mynediad mewn 'medrau ar gyfer annibyniaeth a gwaith'.

Gwna dysgwyr ar draws yr adran gynnydd priodol yn erbyn targedau cymwysterau mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh. Fodd bynnag, nid yw asesiadau cychwynnol yn adlewyrchu galluoedd pob dysgwr yn ddigonol, nac yn ystyried ystod eu hanghenion. Nid yw cynlluniau dysgu unigol a thargedau ar gyfer gwella yn ddigon cynhwysfawr i ddysgwyr wneud cynnydd hyd eithaf eu gallu.

Mewn rhifedd, mae dysgwyr yn datblygu ystod o fedrau priodol. Maent yn adnabod priodweddau gwrthrychau dau-ddimensiwn a thri-dimensiwn yn gywir. Maent yn defnyddio data i wneud cyfrifiadau adio a thynnu syml. Mae disgyblion mwy abl yn

darllen clorian yn hyderus, yn amcangyfrif ac yn defnyddio medrau rhagfynegi. Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth o ddyfnder dealltwriaeth dysgwyr, oherwydd y mae llawer o weithgareddau yn ymwneud â deilliannau dysgu cymwysterau.

Mae dysgwyr mwy abl yn datblygu eu dealltwriaeth o ddatganiadau negyddiad dwbl ac yn defnyddio'r ffurf gywir yn ysgrifenedig ac ar lafar. Mae dysgwyr yn dechrau ysgrifennu at ddibenion gwahanol. Fel rhan o'u datblygiad personol a chymdeithasol, mae dysgwyr yn llunio llythyrau sylfaenol, yn defnyddio cysyllteiriau'n dda ac yn golygu eu gwaith. Caiff ychydig iawn ohonynt eu cynorthwyo i ddatblygu medrau llawysgrifen.

Mae dysgwyr yn datblygu ystod briodol o fedrau mewn TGCh; mae'r rhain yn cynnwys prosesu geiriau, defnyddio taenlenni syml a llunio posteri syml gan ddefnyddio meddalwedd cyhoeddi bwrdd gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o TGCh ar draws pob maes cwrs wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Yn 2014, roedd traean o'r rhai a oedd yn gadael y coleg yn cael eu hystyried yn bobl nad ydynt wedi addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac ni all y coleg gyfrif am ble mae llawer o'r dysgwyr hyn sy'n agored i niwed. Mae ychydig o ddysgwyr wedi symud ymlaen o'r adran medrau byw'n annibynnol ac wedi manteisio ar gyrsiau prif ffrwd yn y coleg.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn manteisio ar raglen teithio annibynnol, lle bo hynny'n briodol. O ganlyniad, mae eu pryder wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau. Mae dysgwyr ar y cwrs Horizons yn datblygu medrau priodol mewn glanhau, defnyddio sugnwr llwch a choginio'n iach. Gall dysgwyr siarad yn hyderus am hawliau a chyfrifoldebau eu hunain a phobl eraill. Mae hyn yn cynnwys pwysigrwydd gwneud dewisiadau priodol yn eu bywydau personol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwrando'n astud yn y dosbarth. Maent yn gwrando'n dda ar y staff a'u cyfoedion. Maent yn foesgar ac yn gwrtais ag ymwelwyr. Mae ymddygiad dysgwyr yn rhagorol.

Mae gan bob cwrs gynrychiolydd dysgwyr. Caiff y rhain eu hethol ac maent yn trafod materion sy'n peri pryder iddynt. Fodd bynnag, nid ydynt yn glir ynghylch sut yr eir i'r afael â'u hawgrymiadau.

Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn gwybod beth i'w wneud am fwlio, ac mae bron pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch.

At ei gilydd, 95% yw presenoldeb yn yr adran.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Digonol**

At ei gilydd, mae'r coleg yn darparu cwricwlwm gyffredinol berthnasol sy'n cynnig ystod briodol o brofiadau i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw amserlen y cwrs yn bodloni anghenion dysgwyr unigol yn ddigon da bob tro. Caiff cyfleoedd eu colli i ddysgwyr ddatblygu ystod ehangach o fedrau ymarferol. Yn benodol, mae cyfleoedd i ddysgwyr gael profiad sy'n gysylltiedig â gwaith yn gyfyngedig.

Mae pwyslais cryf ar fedrau hanfodol ym mhob cwrs, sy'n galluogi dysgwyr i atgyfnerthu a datblygu eu medrau. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddysgwyr wella eu medrau Cymraeg mewn gwersi.

Gwna'r adran ddefnydd da o offer asesu i asesu galluoedd dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw asesiad ar waith i asesu anghenion personol a chymdeithasol ychwanegol dysgwyr. Nid yw targedau ar gyfer llawer o ddysgwyr mewn cynlluniau dysgu unigol yn benodol nac yn fesuradwy. At ei gilydd, mae'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu yn canolbwyntio gormod ar weithgareddau yn yr ystafell ddosbarth ac nid ydynt yn paratoi dysgwyr yn ddigon da ar gyfer y medrau y bydd eu hangen arnynt pan fyddant yn gadael y coleg.

Ym mhob gwers, mae athrawon a staff cymorth yn creu perthynas gadarnhaol â dysgwyr. Maent yn rheoli ymddygiad dysgwyr yn dda ac yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau dysgwyr, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio holi yn dda i ymestyn gwaith dysgwyr a datblygu eu dealltwriaeth.

Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae diffyg her a diben. Nid yw staff cymorth yn hyrwyddo annibyniaeth dysgwyr yn ddigon da bob tro. Mewn ychydig o wersi, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith a chwblhau tasgau ar lefel isel. Mewn llawer o wersi, nid yw gwaith yn cyfateb yn ddigon da i alluoedd dysgwyr unigol. Nid yw arferion asesu ar draws yr adran yn gyson ac nid yw'r holl athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio ar eu dysgu eu hunain.

Nid yw'r coleg yn darparu adborth rheolaidd i rieni.

Mae'r adran yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am ystod o faterion sy'n dylanwadu ar eu hiechyd a lles, er enghraifft iechyd rhyw a cham-drin alcohol. Caiff dysgwyr lefelau priodol o gymorth yn eu gwersi. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gymorth arbenigol yn y coleg i ddysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Mae'r adran yn llwyddo i greu amgylchedd tawel a chynhwysol lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, lle caiff cyfraniad pob unigolyn ei werthfawrogi. Yn gyffredinol, mae ystafelloedd dosbarth a mannau addysgu yn ddigonol ar gyfer eu diben, ond nid ydynt yn darparu amgylcheddau dysgu symbylol. Yn aml, mae arddangosiadau yn hen ac wedi dyddio, ac nid ydynt yn hyrwyddo dysgu.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Digonol**

Penodwyd pennaeth a dirprwy bennaeth yr adran yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maent wedi ymateb yn briodol i'r adroddiad datblygu ansawdd blaenorol. Maent yn dechrau darparu cyfeiriad a gweledigaeth glir ar gyfer gwaith yr adran a gosod disgwyliadau uchel addas ar gyfer yr holl staff.

Yn gyffredinol, mae cofnodion cyfarfodydd adrannol yn canolbwyntio ar faterion gweithdrefnol. Nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella safonau dysgwyr.

Mae swydd ddisgrifiadau yn glir ac yn cynnwys cyfrifoldebau coleg-cyfan ac adrannol. Mae llinellau atebolrwydd a disgwyliadau clir yn ymwneud ag amcanion perfformiad. Mae cylch rheoli perfformiad priodol sy'n cynnwys arsylwadau o addysgu. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw staff yn gallu mynegi targedau ar gyfer gwella.

Mae adroddiad hunanasesu'r adran yn darparu crynodeb o gynnydd mewn perthynas â'r cynllun datblygu ansawdd blaenorol. O ganlyniad i newidiadau i reolaeth yr adran, yn rhannol, ni roddwyd llawer o'r targedau hyn ar waith yn llawn hyd yn hyn. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r cryfderau presennol a meysydd i'w gwella, ac mae llawer o'r meysydd i'w gwella yn briodol. Fodd bynnag, mae'r arfarniadau cyffredinol yn rhy gadarnhaol ac nid ydynt yn nodi meysydd allweddol i'w gwella yn ddigon da. Nid yw rôl staff, dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach yn y broses hunanarfarnu wedi ei datblygu'n ddigonol.

Mae'r cynllun datblygu ansawdd presennol yn ymgorffori'r meysydd i'w gwella na chawsant eu bodloni yn y cynllun blaenorol a'r meysydd hynny i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad hunanasesu. Mae'r adran wedi gosod ystod o dasgau heriol iddi hi ei hun. Caiff cyfrifoldebau eu neilltuo'n glir a chaiff dyddiadau adolygu a chwblhau eu gosod. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn alinio tasgau yn ôl amcanion strategol. Nid yw cerrig milltir interim, y mae modd mesur cynnydd yn eu herbyn, wedi eu cynnwys ac nid oes costau llawn ynghlwm wrth y cynllun.

At ei gilydd, dim ond megis dechrau cael eu datblygu y mae cynllunio gwelliant a hunanarfarnu.

Mae'r adran wedi nodi'r angen i feithrin cysylltiadau cryfach ag ysgolion, darparwyr eraill a rhieni, er mwyn i staff elwa ar ddeialog broffesiynol yn ymwneud â datblygiadau cwricwlaidd a deall anghenion dysgwyr yn well.

Mae cysylltiadau priodol ag asiantaethau statudol a chaiff cyfeiriadau priodol eu gwneud, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid yw cysylltiadau â gwasanaethau cymorth arbenigol yn gadarn ac, o ganlyniad, nid yw staff yn ddigon ymwybodol o anghenion dysgwyr na sut i ddiwygio arferion i'w bodloni.

Mae gan athrawon yn yr adran gymwysterau priodol. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant i staff yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig penodol dysgwyr wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Nid yw dysgwyr yn gallu manteisio ar ystod briodol o adnoddau dysgu bob tro.

## Gwyddoniaeth a mathemateg

### Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu gwyddoniaeth a mathemateg yn rhan o Adran Addysg Gyffredinol y coleg. Mae'r adran yn ei chyfanrwydd yn darparu ystod eang o gyrsiau TGAU, gan gynnwys rhaglenni ailsefyll TGAU Saesneg a mathemateg; darpariaeth Mynediad at Addysg Uwch; ystod dda o gyrsiau Safon UG a Safon Uwch; a Chymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch.

Ar gyfer y maes dysgu hwn, gwnaethom arolygu cyrsiau TGAU gwyddoniaeth a gwyddoniaeth alwedigaethol etifeddol lefel 2, a Mynediad at Addysg Uwch a chyrsiau gwyddoniaeth a mathemateg Safon UG a Safon Uwch ar lefel 3. Ni wnaethom gynnwys cyrsiau rhifedd sylfaenol lefel 2, rhifedd lefel 2 a chyrsiau mathemateg TGAU.

Yn nodweddiadol, mae dysgwyr ar gyrsiau gwyddoniaeth a mathemateg yn yr adran yn astudio yng nghampws y coleg ar Heol y Ddinas (ar gyfer seicoleg a mathemateg), a champws Trowbridge (ar gyfer ffiseg, cemeg a'r gwyddorau biolegol), lle ceir labordai addysg ag offer priodol.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Gwella cyfradd y dysgwyr sy'n cwblhau eu cymwysterau yn llwyddiannus

A2 Gwella prydlondeb dysgwyr

A3 Rhoi rhaglen gwyddoniaeth a mathemateg amgen ar waith i ddysgwyr nad yw astudiaethau Safon Uwch yn addas ar eu cyfer

A4 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu, gan gynnwys holi, ennyn diddordeb, ymestyn a herio dysgwyr o bob gallu

A5 Datblygu systemau i adrodd yn ffurfiol ar gynnydd dysgwyr dan 18 oed i rieni

A6 Datblygu'r defnydd o osod targedau mewn sesiynau tiwtorial i gynnwys pob agwedd ar raglen astudio dysgwr, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd

A7 Cynyddu cyfradd y camau gweithredu sy'n cael eu nodi yn hunanasesiad y maes dysgu i wella ansawdd addysgu a dysgu sy'n cael eu rhoi ar waith

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Digonol**

At ei gilydd, mae dysgwyr mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau sydd islaw'r cymaryddion cenedlaethol. Dengys data cyhoeddedig ar gyfer 2012-2013 bod dysgwyr ar draws ystod o gyrsiau gwyddoniaeth TGAU, at ei gilydd, yn cwblhau eu cymwysterau ar gyfraddau sydd o gwmpas neu ychydig islaw'r cymaryddion cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n astudio cyrsiau gwyddoniaeth a mathemateg Safon Uwch a Safon UG yn cwblhau eu cymwysterau ar gyfraddau sydd islaw neu ymhell islaw'r cymaryddion cenedlaethol. Mae dysgwyr ar gyrsiau Mynediad i wyddorau bywyd yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus ar gyfraddau sy'n debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae tueddiadau tair blynedd yn dangos patrwm cyson.

Mae data'r coleg heb ei gyhoeddi ar gyfer 2013-2014 yn dangos mân welliant mewn cyfraddau llwyddo, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ar gyfer dysgwyr sy'n

cwblhau cymwysterau gwyddoniaeth a mathemateg Safon Uwch a Safon UG yn llwyddiannus yn isel o hyd.

Yn gyffredinol, daw dysgwyr i'r coleg i ddechrau eu hastudiaethau Safon UG a Safon Uwch mewn gwyddoniaeth a mathemateg â sgorau TGAU is na'r cyfartaledd. Dengys dadansoddiad gwerth ychwanegol y coleg, a gynhyrchwyd yn fasnachol, bod dysgwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau yn cyflawni graddau yn eu harholiadau gwyddoniaeth a mathemateg Safon UG a Safon Uwch sy'n unol â'r disgwyliadau ar sail eu graddau TGAU, ar gyfartaledd. Dros gyfnod o dair blynedd, mewn ychydig o bynciau, cemeg yn arbennig, mae dysgwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau wedi cyflawni graddau uwch na'r disgwyl.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da ar eu cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n astud ac yn cymryd rhan yn dda mewn gweithgareddau yn eu dosbarthiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ysgrifennu nodiadau defnyddiol yn ystod gwersi ac yn cyfuno'r rhain â thaflenni, deunydd ar Moodle, a gwerslyfrau, i ffurfio cofnod defnyddiol o ddysgu.

Mae dysgwyr yn gweithio'n dda mewn parau ac mewn grwpiau ar dasgau fel trefnu gwybodaeth fiolegol yn dacsonomïau, llunio posteri i ddangos adweithiau cemegol, a chyflawni gweithgareddau ymarferol mewn ffiseg i fesur y dadwefriad o gynwysyddion.

Mae llawer o ddysgwyr yn cyfrannu'n bwrpasol at drafodaethau, er mai dim ond ychydig ohonynt sy'n cynnig esboniadau estynedig neu fanwl i gwestiynau. Nid yw dysgwyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf yn cyfrannu digon at drafodaethau dosbarth, ac felly nid ydynt yn ymarfer eu defnydd o dermau gwyddonol a thechnegol ddigon trwy drafodaethau dosbarth.

Yn eu dosbarthiadau pwnc, mae dysgwyr yn trafod eu targedau byrdymor i wella â'u hathrawon ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddysgwyr sy'n ymwybodol ar ddechrau eu cyrsiau o'r graddau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni, neu'r disgwyliadau cyffredinol ohonynt.

Mae dysgwyr mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn teimlo'n ddiogel yn y coleg. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo y cânt eu cynorthwyo'n dda gan eu tiwtoriaid ac yn gwerthfawrogi'r amgylchedd cynhwysol yn y coleg. Mae ychydig o ddysgwyr ar y cwrs Mynediad i Wyddorau Bywyd wedi sefydlu grwpiau astudio i gyfoedion ac maent yn mwynhau dysgu gyda'u cyfoedion.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn cyrraedd eu gwersi'n hwyr, yn y bore ac ar ôl egwyliau yn ystod y dydd.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Digonol**

Mae'r maes dysgu'n darparu ystod eang o gyrsiau TGAU, Safon UG a Safon Uwch mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Mae gofynion mynediad isel ar gyfer derbyn ar y rhaglen Safon UG, sy'n annog cynwysoldeb ac yn ehangu mynediad i ddysgwyr â

phroffiliau TGAU is. Caiff dysgwyr rhan-amser gyfle i astudio cymwysterau Safon Uwch carlam trwy fynychu yn ystod y dydd neu gyda'r nos. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gymwysterau galwedigaethol ar gael ar lefelau 2 a 3 ar hyn o bryd i ddysgwyr a fyddai'n fwy addas ar gyfer y math hwn o gwrs. Mae'r holl ddysgwyr amser llawn yn astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ochr yn ochr â'u prif astudiaethau. Trwy Fagloriaeth Cymru, caiff dysgwyr gyfleoedd da i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygu cynaliadwy, yn ogystal â datblygu eu gwybodaeth am Gymru a'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau asesiadau cychwynnol mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o athrawon sy'n gosod targedau'n effeithiol i ddatblygu medrau dysgwyr.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau sy'n bodloni anghenion y mwyafrif o ddysgwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, caiff gwersi eu harwain gormod gan athrawon gan olygu nad yw dysgwyr yn cael eu cynnwys yn llawn. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio TG yn effeithiol ac yn gwneud defnydd da o Moodle i alluogi dysgwyr i fanteisio ar ystod eang o ddeunyddiau ac adnoddau addysgu. Mae gan bron pob un o'r athrawon wybodaeth bynciol dda ac, mewn llawer o achosion, maent yn cyflwyno gwersi'n frwdfrydig.

Mae athrawon yn gosod gwaith cartref rheolaidd ac yn gwneud defnydd da o ystod o gwestiynau arholiadau. Mae bron pob un o'r athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd ac yn darparu adborth defnyddiol er mwyn i ddysgwyr wella. Mae athrawon yn cadw cofnodion da o farciau dysgwyr ar y system rheoli dysgwyr ac yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i osod targedau pwnc unigol i ddysgwyr. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o diwtoriaid personol sy'n defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol â dysgwyr i osod targedau cyffredinol. At ei gilydd, mae athrawon yn defnyddio'r cynllun marcio llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn cywiro sillafu, gramadeg a rhifedd dysgwyr yn gyson. Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i wirio gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Fodd bynnag, nid oes digon o athrawon yn defnyddio strategaethau holi i herio ac ymestyn eu dysgwyr. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn rhoi digon o amser i ddysgwyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf ymateb i gwestiynau.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio sesiynau tiwtorial yn dda ac yn hyrwyddo lles dysgwyr yn effeithiol trwy sesiynau ar berthnasoedd cadarnhaol. Ym mron pob achos, mae athrawon yn meithrin perthynas broffesiynol dda â dysgwyr ac yn eu cynorthwyo'n dda. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad dysgwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn herio dysgwyr sy'n cyrraedd dosbarthiadau'n hwyr. Mae athrawon yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu.

Nid yw'r maes dysgu yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr, a rhieni os yw'n berthnasol, gael adborth ffurfiol trwy adroddiadau cynnydd a nosweithiau rhieni. Mae'r maes dysgu yn hyrwyddo diwylliant o gyfle cyfartal ac amrywiaeth yn effeithiol. Mae ymagwedd dda at gynhwysiant cymdeithasol ac addysgol, ac mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio 'dulliau adferol' yn dda i fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol. Mae bron pob un o'r adnoddau a'r ystafelloedd yn addas i'r diben.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

## Barn: Digonol

Mae strwythur rheoli newydd yn darparu rolau a llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir mewn gwyddoniaeth a mathemateg. Caiff y cyfarwyddwr ei gynorthwyo gan bennaeth adran a dau ddirprwy bennaeth. Mae cyfarfodydd rheolaidd, strwythuredig y tîm rheoli, sy'n cael eu cofnodi, yn sicrhau bod llinellau cyfathrebu cryf ar waith.

Caiff rheolwyr gyfarfodydd misol ag uwch staff data ac ansawdd, sy'n darparu ffocws defnyddiol ar ansawdd a data, ac yn helpu i roi cyfeiriad o ran gwella safonau.

Mae'r maes dysgu yn darparu cyrsiau mewn dau brif gampws ac mae rheolwyr wedi eu lleoli yn y ddau safle i hyrwyddo cyfathrebu effeithlon â staff a dysgwyr. Mae'r staff addysgu yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae timau cyrsiau yn cyfrannu at yr asesiad ansawdd adrannol cyffredinol trwy adolygiadau ansawdd pynciau.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cynnal adolygiad mewnol o'r maes dysgu, sydd wedi cynhyrchu hunanasesiad cywir, a chynllun gweithredu sy'n llywio gwella ansawdd ar gyfer darpariaeth Safon Uwch. Mae gan reolwyr ddealltwriaeth foddhaol o gryfderau a meysydd i'w gwella yn y maes dysgu ac maent wedi cyfathrebu'r rhain yn effeithiol i'r holl staff.

Mae rheolwyr wedi nodi ystod briodol o strategaethau i wella ansawdd ac wedi eu rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys rhannu arfer dda, hyfforddi staff a defnyddio hyrwyddwyr addysgu a dysgu. Yn ogystal, mae'r maes dysgu wedi newid gofynion mynediad ar gyfer cyrsiau Safon Uwch ac mae cyrsiau galwedigaethol newydd yn yr arfaeth. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i nodi effaith y mesurau hyn. Nid yw rheolwyr wedi datblygu a gweithredu strategaethau i ddatrys prydlondeb gwael dysgwyr hyd yn hyn. At ei gilydd, nid oes unrhyw frys o ran ymateb i'r materion a nodwyd.

Mae'r coleg yn aelod o Bartneriaeth Ysgolion Caerdydd. Mae'r gynghrair strategol hon rhwng y coleg, 20 ysgol uwchradd yng Nghaerdydd a'r awdurdod lleol yn darparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ar draws y ddinas fanteisio ar ystod ehangach o gymwysterau Safon Uwch.

Mae gan yr holl staff addysgu gymwysterau da ac maent yn hyddysg yn eu pynciau. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn cyfranogi mewn datblygiad proffesiynol parhaus priodol ac arfarniadau blynyddol.

Mae gan y maes dysgu brosesau cyllidebol sydd wedi eu cynllunio'n dda. Caiff cyllideb yr adran ei datblygu o'r cynllun cwricwlwm blynyddol, a chaiff adnoddau eu dyrannu'n deg ar sail gofynion y cyrsiau.

## Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu

### Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu yn cynnig ystod o gyrsiau o lefel Mynediad i lefel 3.  Yn y flwyddyn gyfredol, sef 2014-2015, mae 399 o ddysgwyr amser llawn.  Caiff darpariaeth peirianneg ei chyflwyno dros dri phrif safle.  Hefyd, mae'r adran yn cynnig rhaglenni cyswllt ag ysgolion mewn cerbydau modur, a rhaglenni lefel uwch mewn peirianneg cynnal awyrennau yn y Ganolfan Ryngwladol Hyfforddiant Aerofod (ICAT).

### Argymhellion y maes dysgu

A1 Gwella cyfraddau llwyddo dysgwyr ar gyrsiau sylweddol

A2 Sicrhau bod gan ddysgwyr dargedau gwerth ychwanegol yn gysylltiedig â'u cymwysterau sylweddol er mwyn codi safonau a dyheadau dysgwyr

A3 Rhannu arfer orau mewn addysgu ac asesu ar draws y maes

A4 Gwneud yn siŵr fod strategaethau addysgu yn bodloni anghenion dysgwyr unigol i ddarparu her ddigonol

A5 Gwella prydlondeb dysgwyr ar gyfer sesiynau

A6 Gwneud yn siŵr y caiff yr holl staff eu cynnwys mewn prosesau hunanasesu ac mewn cynllunio camau gweithredu i wella ansawdd

A7 Gwella partneriaethau â diwydiant

### Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1:  Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Barn:  Digonol

Ar gyfer pob cwrs, mae gan y maes dysgu peirianneg gyfradd llwyddo sydd ychydig islaw'r cymharydd cenedlaethol.  Mae cyfraddau llwyddo ar gyrsiau sylweddol ymhell islaw'r cymharydd cenedlaethol ac mae'r maes dysgu yn chwartel 4 o'r holl golegau yng Nghymru.  Bu tueddiadau mewn perfformiad dros y tair blynedd diwethaf yn chwarteli 3 a 4 yn gyson.

Mae data'r coleg heb ei gyhoeddi ar gyfer 2013-2014 yn gadarn ac yn dangos bod y gyfradd llwyddo ar gyfer pob cwrs wedi parhau'n gyson â chyfradd y llynedd.

Gwna'r mwyafrif o ddysgwyr gynnydd rhesymol mewn dosbarthiadau.  Maent yn galw gwaith blaenorol i gof yn dda ac yn datblygu eu medrau datrys problemau a'u medrau meddwl yn gymwys.  Yn y mwyafrif o wersi, mae dysgwyr yn datblygu medrau ymarferol da.  Maent yn dangos dealltwriaeth dda o ddehongli data, prosesau a gwybodaeth dechnegol peirianneg.  At ei gilydd, ym mhob maes

peirianneg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn y dosbarth yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau, a gallant gymhwyso'r rhain i ddysgu mewn cyd-destun peirianegol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n ddiogel ac yn gynhyrchiol, a gallant gymhwyso gweithgareddau dysgu blaenorol yn dda i gyd-destunau newydd. Mae gan ddysgwyr cerbydau modur unedau gwerthfawr yn seiliedig ar dasgau ac, yn ystod sesiynau ymarferol, maent yn cymell eu hunain ac yn rheoli eu dysgu eu hunain.

Mae dysgwyr ar raglenni lefel 3 yn dangos lefelau da o lythrennedd ac maent yn huawdl wrth drafod a chyflwyno testunau peirianneg. Er enghraifft, mae dysgwyr electroneg lefel 3 yn cyflwyno eu gwaith prosiect yn hyderus ac yn gymwys gan ddefnyddio medrau TGCh da a geirfa dechnegol sy'n berthnasol i'r diwydiant.

Er bod dysgwyr yn awyddus i drafod cyfleoedd dilyniant i gyflogaeth neu addysg bellach yng Nghymru, nid oes llawer o dystiolaeth o ddysgwyr yn datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ystyried y coleg yn amgylchedd iach a diogel. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o gyfeiriadau ar gyfer cymorth ac maent yn gwybod ble i fynd i gael help a chyngor. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu dysgu, yn cyfranogi'n dda ac yn teimlo eu bod ar y cwrs cywir. Mae llawer o ddysgwyr yn paratoi ar gyfer byd gwaith yn dda ac yn codi arian ar gyfer elusennau trwy weithgareddau gwerth chweil yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae gan y mwyafrif o ddosbarthiadau gynrychiolwyr myfyrwyr. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi. Mewn lleiafrif o sesiynau, mae prydlondeb yn broblem ac mae ychydig o ddysgwyr yn cyrraedd gwersi'n hwyr.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Digonol**

Mae peirianneg yn y coleg yn cynnig cwricwlwm eang sy'n ategu anghenion addysg a hyfforddiant yn y maes yn briodol. Mae gan yr adran ffocws cadarn ar ddatblygu medrau peirianegol, ac mae cyflogadwyedd yn flaenoriaeth uchel ar y rhan fwyaf o gyrsiau. Mae athrawon yn annog dilyniant i gyrsiau lefel uwch, addysg uwch (AU) a phrentisiaethau. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o gyrsiau sydd â chysylltiadau addas â diwydiant, a dim ond ychydig o ddysgwyr sy'n manteisio ar brofiad gwaith peirianegol priodol. Mae llawer o weithdai yn cynnig amgylcheddau gwaith realistig. Mae athrawon yn gwneud yn siŵr y caiff medrau llythrennedd a rhifedd uwch eu haddysgu i ychydig o ddysgwyr sydd wedi cyflawni cymwysterau medrau neu TGAU Saesneg neu fathemateg yn flaenorol. Mewn sesiynau prif gyrsiau, lle mae llythrennedd a rhifedd yn digwydd yn naturiol, mae athrawon yn datblygu'r medrau hyn yn effeithiol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o sesiynau, nid yw cynllunio i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Mae gan bron pob un o'r athrawon wybodaeth bynciol a thechnegol gyfredol ac maent yn cynllunio sesiynau'n dda. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau

uchel ac maent yn meithrin perthynas waith dda sy'n annog dysgu. Caiff technegwyr eu defnyddio'n effeithiol ac maent yn cynorthwyo llawer o sesiynau ymarferol yn dda. Fodd bynnag, mewn tua hanner y sesiynau, nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynau treiddgar, estynedig i herio dysgwyr yn ddigon da.

Mae diffyg rhediad mewn ychydig o sesiynau ac nid ydynt yn darparu gwaith ymdrechgar yn effeithiol i fodloni anghenion pob un o'r dysgwyr, beth bynnag fo'u gallu. Mewn ychydig o sesiynau, mae ychydig iawn o ddysgwyr wedi ymddieithrio.

Mae ychydig o athrawon a dysgwyr yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol electronig yn dda i olrhain cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn defnyddio'r system i wirio eu presenoldeb a'u hawl i gael grant cynhaliaeth addysg yn unig. Mewn ychydig iawn o sesiynau, mae dysgwyr yn adolygu eu gwaith ac yn gosod eu targedau eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod pa mor dda y maent yn dod yn eu blaenau ac mae tua hanner ohonynt yn gwybod sut i wella eu perfformiad. Fodd bynnag, ni chaiff targedau gwerth ychwanegol eu gosod yn ffurfiol ar gyfer cymwysterau graddedig, ac nid yw'r coleg yn darparu cyfle i ddysgwyr, a rhieni lle bo hynny'n briodol, gael adborth ffurfiol ar gynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn atgyfnerthu iechyd a diogelwch yn dda, yn enwedig mewn gwersi ymarferol. Mae'r coleg yn cynnig systemau cymorth priodol a gall y rhan fwyaf o ddysgwyr gael cymorth arbenigol, yn ôl yr angen. Mae polisïau diogelu ar waith ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan y rhan fwyaf o gyrsiau gynrychiolydd myfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif ohonynt yn ymwybodol o'r cyfarfodydd.

Mae gan lawer o feysydd dysgu adnoddau da a chânt eu cynnal ag offer cyfredol. Mae gan y rhan fwyaf o feysydd dysgu ymarferol adnoddau rhagorol sy'n ategu datblygu medrau peirianegol yn dda. Fodd bynnag, mae rhai meysydd dysgu wedi eu lleoli mewn ystafelloedd sydd wedi dyddio, a cheir adnoddau cyfyngedig ynddynt.

Nid yw'r rhan fwyaf o feysydd dysgu yn adlewyrchu'r Gymraeg na diwylliant Cymru. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu medrau dwyieithog defnyddiol trwy gyfleoedd mewn dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Digonol**

Yn gyffredinol, mae rheolwyr yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn rheoli darpariaeth ar draws mwy nag un safle campws. Mae rolau clir ac mae llinellau atebolrwydd wedi eu strwythuro'n dda.

Mae rheolwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac mae'r mwyafrif o arweinwyr yn cyfarfod â'u staff yn aml. Mae'r coleg yn defnyddio'r fewnrwyd yn effeithiol i gyfathrebu cofnodion cyfarfodydd. Fodd bynnag, ni chaiff agenda a fformat safonedig y coleg ar gyfer cofnodi cyfarfodydd eu defnyddio'n gyson. Mae hyn yn

golygu mai dim ond lleiafrif o gyfarfodydd sy'n cynnwys trafodaethau am gynnydd a pherfformiad dysgwyr.

Mae'r adroddiad hunanasesu peirianneg yn nodi meysydd allweddol i'w gwella yn gywir. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr ac athrawon yn deall nac yn defnyddio hunanasesu'n ddigon da i lywio gwella ansawdd yn gyson.

Mae rheolwyr yn defnyddio data'n dda i nodi bylchau mewn cyfraddau cyrhaeddiad a chwblhau dysgwyr. Fodd bynnag, ni fu llwyddiant rheolwyr o ran gwella deilliannau cyrsiau sylweddol dros y tair blynedd diwethaf yn ddigon effeithiol ac mae cynnydd yn rhy araf. Mae rheolwyr wedi nodi lle mae deilliannau islaw'r cymaryddion cenedlaethol ac, yn y mwyafrif o achosion, maent wedi rhoi strategaethau ar waith i wella perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r broses ar gyfer cyfathrebu dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau yn systematig i athrawon er mwyn arwain at welliannau yn glir.

Mae rheolwyr yn arsylwi sesiynau addysgu fel rhan o'r broses gwella ansawdd ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu. Caiff y deilliannau eu dilysu'n effeithlon ac mae system strwythuredig o gymorth i athrawon sy'n cael eu barnu'n ddigonol neu'n anfoddhaol.

Mae'r gyfarwyddiaeth yn cynllunio datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn dda. Mae sesiynau ymwybyddiaeth gwerthfawr fel rhan o ymrwymiad y coleg i ddiogelu, a chaiff y rhain eu mynychu gan bron bob aelod o'r staff. Mae'r adrannau peirianneg yn gwneud defnydd effeithiol o e-ddysgu ar gyfer rhaglenni hyfforddiant gorfodol, fel diogelu data.

At ei gilydd, nid yw gwaith partneriaeth yr adran â rhanddeiliaid a diwydiant wedi ei ddatblygu'n ddigonol, a chaiff hyn ei gydnabod yn yr adroddiad hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r adran cerbydau modur yn cydweithio'n agos iawn ag ysgolion lleol, cyflogwyr a phartneriaid. O ganlyniad, mae dilyniant o raglenni cyswllt ag ysgolion yn yr adran hon i gyrsiau amser llawn yn dda.

Mae rheolwyr yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn effeithiol, gan fanteisio i'r eithaf ar eu hamser a'u medrau. Mae gan y coleg strategaeth ystadau uchelgeisiol a bydd y cyfleuster newydd a fydd yn agor ym Medi 2015 o fudd i tua hanner y dysgwyr sy'n astudio peirianneg.

## Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig

### Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r adran Adeiladu yn darparu tua 7% o ddarpariaeth Coleg Caerdydd a'r Fro, a 12% o'r holl ddysgwyr adeiladu amser llawn yng Nghymru. Caiff y cyrsiau eu darparu mewn tri champws yng Nghaerdydd a'r Barri.

Caiff adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig ei gyflwyno gan ddwy adran, sef yr adrannau adeiladu a pheirianneg. Mae'r ddarpariaeth adeiladu yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau amser llawn a rhan-amser.

Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn cyflwyno cyrsiau mewn: gweithredwyr adeiladu, gwaith brics, plastro, teilsio waliau a lloriau, gwaith coed, saernïaeth mainc, paentio ac addurno, gosodiadau trydanol a gwresogi ac awyru. Yn gyffredinol, mae cyrsiau ar gael ar sail amser llawn a rhan-amser. Mae'r mwyafrif o gyrsiau ar gael ar lefel 1 a lefel 2. Mae lleiafrif o gyrsiau ar gael ar lefel 3.

**Argymhellion y maes dysgu**

A1 Gwneud yn siwr fod dysgwyr yn datblygu medrau ymarfer lefel uwch a gwybodaeth ddamcaniaethol, lle bo hynny'n briodol

A2 Gwneud yn siwr fod dysgwyr yn gweithredu ar adborth ysgrifenedig i wella eu perfformiad

A3 Sicrhau bod addysgu yn heriol a bod iddo rediad priodol

A4 Sicrhau bod athrawon yn gosod targedau penodol i ddysgwyr yn gyson i alluogi athrawon a dysgwyr i fonitro ac olrhain cynnydd mewn dysgu a medrau

**Prif ganfyddiadau**

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Barn: Da**

At ei gilydd, mae'r gyfradd llwyddo ar gyfer pob cwrs mewn adeiladu yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol neu'n uwch, ac mae wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn rhoi'r coleg yn y chwartel uchaf o'r holl golegau yng Nghymru. Mae'r gyfradd llwyddo ar gyfer cyrsiau sylweddol (y rhai sy'n gyfwerth â, neu'n fwy na, 150 o oriau dysgu dan arweiniad) uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol hefyd, ac ar gyfer y cyrsiau hyn, mae'r coleg yn yr ail chwartel. Mae data'r coleg heb ei gyhoeddi ar gyfer 2013-2014 yn dangos y caiff perfformiad yr adran ei gynnal.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos cymhwysedd ymarferol yn eu dysgu, ac mae lleiafrif ohonynt yn dangos cymhwysedd ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol lefel uwch mewn sesiynau. Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn cymryd camau priodol ar ôl cael adborth gan athrawon ar sut i wella eu perfformiad. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod pa gynnydd y maent yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella rhagor.

Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn cwblhau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae cyfradd y dysgwyr sy'n ennill y cymhwyster hwn o gwmpas y cyfartaledd cenedlaethol. Caiff y dysgwyr hyn wybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o bwysigrwydd cynnwys y gymuned, ac mae llawer o ddysgwyr yn ennill medrau penderfynu trwy gyfleoedd profiad gwaith â chyflogwyr lleol. Mae llawer o ddysgwyr yn cyfranogi'n effeithiol mewn digwyddiadau cyfoethogi cymunedol.

Dengys portffolios dysgwyr bod gwaith ar lefel briodol ar gyfer y cwrs y maent yn ei astudio ac mae bron pob un ohonynt yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth. Mae dysgwyr yn cyflwyno eu gwaith yn dda gan ddefnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg cywir sy'n briodol i'w lefel astudio.

Mae dysgwyr yn datblygu ystod eang o fedrau a phrofiadau cyflogadwyedd. Maent yn elwa ar gyfleoedd profiad gwaith o ansawdd da, ac ar gysylltiadau cryf y coleg ag ystod o gyflogwyr lleol. Caiff dysgwyr gyfleoedd defnyddiol i hyfforddi ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r galw yn isel ar hyn o bryd.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn dangos lefelau da o frwdfrydedd, parch ac ymddygiad ac maent wedi eu cymell yn dda i ddatblygu eu dysgu, cyflawni eu cymwysterau a symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mae dysgwyr yn datblygu hyder gwell wrth fynychu eu cyrsiau. Maent yn meithrin perthynas waith effeithiol â'u cyfoedion a'u hathrawon.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da, ac maent yn crybwyll eu bod yn mwynhau eu dysgu yn y coleg, yn gyffredinol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn hapus â'u cyrsiau ac yn teimlo eu bod yn defnyddio eu hamser yn effeithiol. Maent yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflogaeth a'u datblygiad personol yn y dyfodol yn dda.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn parchu ei gilydd a'u hathrawon. Mae dysgwyr yn elwa ar berthynas waith dda ac yn gwerthfawrogi'r ffordd aeddfed y cânt eu trin gan eu hathrawon yn fawr iawn. At ei gilydd, mae cyfraddau presenoldeb dysgwyr yn dda.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Barn: Da**

Mae'r ddarpariaeth adeiladu yn cyflwyno ystod gynhwysfawr o gyrsiau sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned leol yn dda. Mae'r ddarpariaeth yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn dda i nodi cyrsiau y mae galw amdanynt ar hyn o bryd yn ôl y diwydiant. Mae hyn wedi arwain at gyflwyno cyrsiau newydd, fel teilsio a phlastro. Caiff dysgwyr ar y cyrsiau hyn eu cynorthwyo'n dda gan ystod eang o weithgareddau cyflogadwyedd sy'n eu paratoi'n dda i weithio yn y diwydiant.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau cyfoethogi sy'n cysylltu'n dda iawn â'r maes dysgu a diwylliant Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau 'Timber Thinkers' ac Ynysoedd Falkland. Mae'r prosiectau hyn yn annog dysgwyr i ddatblygu ystod eang o fedrau newydd a chyfleoedd i weithio â chymunedau amrywiol.

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol a medrau technegol da. Maent yn defnyddio'r profiad hwn yn dda i ddatblygu cymhwysedd ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu her briodol i ddysgwyr i'w helpu i ddatblygu eu medrau'n effeithiol. Fodd bynnag, mae rhediad ychydig o sesiynau yn araf ac nid ydynt yn ddigon heriol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio sesiynau'n dda â nodau ac amcanion clir. Maent yn defnyddio ystod briodol o ddulliau addysgu a hyfforddi, gan gynnwys sesiynau ymarferol a sesiynau theori yn yr ystafell ddosbarth. Mae athrawon yn rhoi sylw arbennig o dda i ddatblygu medrau cyflogadwyedd dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dysgwyr yn gwbl ymwybodol o arferion a gorchmynion y gweithle, gan gynnwys bod yn barod i ddechrau'r gwaith yn brydlon, deall y dasg, a dysgu sut i ddatblygu perthynas waith briodol â chymheiriaid a goruchwylwyr. Mae athrawon yn asesu medrau ymarferol dysgwyr yn dda iawn. Maent yn cofnodi deilliannau asesu yn

gyson ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darparu adborth defnyddiol i ddysgwyr ar sut y gallant wella eu perfformiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o enghreifftiau, nid yw adborth ysgrifenedig yn ddigon manwl.

Mae athrawon yn darparu cwrs ymsefydlu cynhwysfawr i ddysgwyr ar ddechrau eu cwrs. Mae gan staff yn y maes darpariaeth hwn drefniadau priodol ar waith i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion cymorth unigol. Mae rheolwyr a staff eraill yn manteisio ar ystod eang o staff ac asiantaethau cymorth arbenigol, yn ôl yr angen, i fodloni anghenion penodol dysgwyr. Mae'r cymorth hwn yn effeithiol o ran sicrhau bod dysgwyr yn parhau â'u cyrsiau ac yn cyflawni eu cymwysterau.

Ar draws pob adran lle caiff y ddarpariaeth ei haddysgu, mae amgylchedd cynorthwyol a chroesawgar i ddysgwyr. Yn gyffredinol, mae'r cyfleusterau yng nghanolfannau adeiladu'r coleg o ansawdd da. Mae hyn yn golygu y gall dysgwyr fanteisio ar ystod dda o gyfleusterau ac adnoddau sy'n bodloni eu hanghenion yn effeithiol.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?**

**Barn: Da**

Mae uwch reolwyr a rheolwyr canol yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad y maes dysgu. Mae'r tîm rheoli adeiladu yn cydweithio'n dda â'i gilydd i oruchwylio a chyflwyno blaenoriaethau strategol y coleg.

Mae rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth am ddata'r coleg yn dda i fesur a herio'r rhan fwyaf o agweddau ar gyflwyno cyrsiau yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi pan fydd cyrsiau'n tanberfformio ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu priodol ar gyfer gwella.

Mae cyfathrebu ar draws y ddarpariaeth adeiladu yn dda. Mae'r adran hon yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, lle mae rheolwyr yn adolygu agweddau allweddol ar y ddarpariaeth ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl staff ar ddatblygiadau a chynnydd y ddarpariaeth yn erbyn targedau. Bu'r cyfarfodydd hyn yn effeithiol o ran cyfrannu at wella deilliannau i ddysgwyr. Mae rheolwyr yn defnyddio trefniadau'r coleg ar gyfer adolygu perfformiad staff yn briodol. Caiff adolygiadau perfformiad blynyddol eu hategu'n dda gan ystod gynhwysfawr o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae gan reolwyr drefniadau effeithiol ar waith i fonitro a gwella ansawdd a safonau. Maent yn defnyddio dangosfwrdd y coleg yn dda i graffu ar ddata ar gyfer yr adran a'i arfarnu. Mae adroddiad hunanasesu'r adran yn ddogfen ddefnyddiol sy'n adolygu ystod eang o wybodaeth. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn canolbwyntio'n ddigon clir ar nodi meysydd i'w datblygu.

Mae rheolwyr wedi datblygu partneriaethau strategol a gweithredol da ag ysgolion uwchradd lleol, darparwyr dysgu yn y gwaith, cyflogwyr a'r gymuned leol.

Mae rheolwyr yn y maes dysgu hwn yn rheoli adnoddau'n dda. Maent yn dyrannu cyllidebau'n effeithiol ac yn monitro gwariant ar draws yr adrannau yn ofalus. Mae rheolwyr yn defnyddio staff yn briodol i fodloni anghenion dysgwyr.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio ein holl arolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16.  Arolwg boddhad dysgwyr sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror bob blwyddyn yw Llais y Dysgwr.

Mae'r arolwg yn gofyn ystod o gwestiynau i ddysgwyr am y themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, cyngor a chymorth sy'n cael eu rhoi iddynt
- ymatebolrwydd darparwyr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr
- ansawdd addysgu a hyfforddiant
- boddhad cyffredinol

Mae pob thema yn cynnwys ystod o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr raddio perfformiad eu darparwr.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gill Sims | Arolygydd Cofnodol |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |
| Huw Davies | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Catherine Evans | Arolygydd Tîm |
| Nicholas Tyson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Amanda Morgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catrin Rees | Arolygydd Cymheiriaid |
| Adam Twells | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alexander Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ian Andrew Lumsdaine | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gill Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jane Morgan | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gavin Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dafydd Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Caroline Peek | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ian Dickson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Michael Jervis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Richard Mark Tither | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eleanor Davies | Arolygydd Sicrhau Ansawdd |
| Kay Martin | Enwebai |